YR YMOFYNYDD.

RHIF. 64.] EBRILL, 1864. [AIL GYFRES.

LLYFR Y DADGUDDIAD.—ADOLYGIAD Y WASG.

Esboniwr y Dadguddiad, neu Ddarlithiau Esboniadol ar Lyfr y Dadguddiad: gan Rhys Gwesyn Jones, Bethesda, Merthyr. Y mae'r llyfryn yn 123 o dudalenau.

Y MAE'R wasg wedi gwneuthur cam cywilyddus â Mr. Jones: nid ydym yn cofio gweled cynnifer o wallau er ys llawer o amser, mewn mor lleied o le. Dylasai Mr. J. wrthod gadael ei lyfr, yn ei ddull presenol, ymddangos o flaen y cyhoedd. Yn ei ragymadrodd y mae Mr. J. yn gosod allan ei amcan, a'r dull a ddewisodd wrth fyned ymlaen. "Fel rheol i'w dilyn wrth esbonio, ebe fe, cymerais yn ganiattaol fod Ioan yn berchen ar synwyr cyffredin, ac am hyny fod ganddo ryw amcan wrth ysgrifenu pob brawddeg; fod ganddo ryw gynllun wrth ba un i gyfansoddi; ei fod yn rhoddi yr un ystyr i'r un gair ymhob man, oni byddai rheswm digonol dros newid; ac felly fod yn rhaid i minau roddi yr un ystyr iddo, er gorfod trwy hyny groesi yr awdwyr barchwn fwyaf ar gyfrif eu dysgeidiaeth a'u duwioldeb." Y mae yr awdwr yn addef, er ei fod yn credu fod ganddo lawer o bethau newydd, nad ydyw yn wreiddiol, a dywed, "O bob peth ffol yn y byd, y siarad am wreiddioldeb yw'r ffolaf." Y mae llawer o wir yn hyn; a dywed yr awdwr nad oedd Ioan ei hun yn wreiddiol: "Benthycodd lawer oddiar Moses, Ezeciel, a Daniel, ac weithiau oddiar holl ysgrifenwyr yr Hen Destament." Y mae'r awdwr yn troi beirniadaeth a beirniaid o'r neilldu yn lled ddiseremoni. "Mae llawer iawn, ebe fe, o sylw wedi ei dalu i feirniadaeth ysgrythyrol yn yr oes hon, ond ychydig iawn o welliant sydd wedi bod mewn esboniadaeth. Y mae dynion galluog iawn yn treulio blynyddoedd i edrych am gywir ddarlleniad gwahanol ranau o'r holl bethau allanol a berthynant i ysgrifenwyr ac ysgrifeniadau y Beibl. Ond mae ein beirniaid galluocaf yn anfedrus iawn gydag esbonio." Gall hyn fod; er hynny y mae beirniadaeth yn anhebgorol angenrheidiol i'r esboniwr. Y mae'n rhaid iddo gael rhyw beth i'w esbonio cyn y gall fyned ymlaen a'i waith; a'r beirniaid sydd i roddi hyn iddo. Y mae'n rhaid cael y darlleniad yn gywir, onide pa fodd y gall yr esboniad fod yn gywir. Y mae yn ymddangos i ni fod y sylw canlynol yn dra pherthynasol ac yn rhy wir. "Mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr proffesedig yn cymeryd adnodau ar eu penau eu hunain, heb un sylw o'u cyssylltiadau, ac yn fynych iawn yn esbonio un adnod fel pe byddent wedi anghofio pa fodd y darfu iddynt esbonio adnod arall gyfystyr â hi."

DARLITH I.—RHAGDRAETH IOAN.—Dymunasem pe buasai yr awdwr yn y ddarlith hon wedi talu mwy o sylw i'r cwestiynau y mae ef yn ofyn ar y dechreu; sef, eiddo pwy yw y Dadguddiad—Pwy ei awdwr—Paham yr ysgrifenwyd—Pa le—Pa bryd? Dywed ef ei hun fod un neu ddau o'r

cwestiynau hyn yn dra phwysig er penderfynu awdurdod grefyddol y llyfr, ond nas gellir cael fawr cymhorth oddiwrthynt i ddeall y llyfr a'i esbonio. Y mae Mr. Jones yn ystyried mai Ioan yr Apostol yw'r awdwr, er nad yw yn cynnyg profi hynny. Y mae ei sylw ar ddulliaeth Ioan yn ysgrifenu, yr hyn a welir tud. 34, yn dra chywrain: "Myn rhai, ebe fe, fod ei ddulliaeth yn profi fod Ioan yn ieuangach na phan ysgrifenodd ei efengyl a'i lythyrau. Ond pan gofiom mai ysgrifenu y pethau a welodd ac a glywodd yr oedd, ni ellir, feddyliwn, benderfynu dim ar y pen hwn." Os gwir hyn, fe â ymhell dros gyfrif am y gwahaniaeth *style* sydd yn ganfyddadwy i'r lleiaf hyddysg mewn beirniadaeth, rhwng y Dadguddiad ac Efengyl a Llythyrau Ioan. Os *amanuensis* Iesu Grist oedd Ioan, nid rhyfedd y gwahaniaeth; ond ni all hyn gyfrif am y gwahaniaeth *style* sydd rhwng Iesu yn y Dadguddiad, a Iesu fel ei difynir yn yr Efengylau serch hynny. Y mae yn ddrwg genym na fuasai yr awdwr yn trin y Dadguddiad ychydig yn fwy teilwng o'r beirniad a'r ysgolhaig. Nid ydym yn cofio ei fod yn cyfeirio at y cywir ddarlleniad ond dwy waith trwy'r llyfr, a'r ddwy waith hyn y mae'n iawn, sef, tud. 23. "*Y wraig hono Jesebel.* Yn ol y Groeg *dy wraig.*" Buasai'n well pe buasai'r awdwr yn dyweyd yn ol y Groeg *diwygiedig* oblegid yn ol y Groeg *derbyniedig*, y darlleniad cyffredin sydd gywir. Ar tud. 121, y cawn yr unig feirniadaeth arall ar y darlleniad. *Gras ein Harglwydd ni, Iesu Grist, fyddo gyda'r holl saint.*" Y mae'r oll o'r llawysgrifau mwyaf eu pwys yn gadael allan y gair chwi o'r testun. Y darlleniad y mae Mr. Jones yn gymeradwyo, yw darlleniad Griesbach. Y mae Tischendorff yn ei Destament Groeg diweddaf yn darllen, "Gras ein Harglwydd, Iesu Grist, fyddo gyda phawb; ond y mae llawysgrif Sinai, a gafwyd allan ganddo, ac a gyhoeddwyd yn ddiweddar dros ddarlleniad Mr. J. Y mae hyn yn dangos y gall Mr. J. feirniadu, a theimlwn yn hyderus y buasai yn well iddo dalu mwy o sylw i feirniadaeth, er cael testun cywir i'w esbonio, ac ni theimlem yn golled pe buasai yn gwneuthur felly hefyd a'r esboniad; oblegid er fod y teitl yn lled *bromising*, "Esboniwr y Dadguddiad," y mae llawer o bethau yn y Dadguddiad ag sydd yn broffesedig anhawdd i'r esboniwr ei hun. Efallai mai gwell a mwy gwylaidd fuasai gadael y rhan hon o'r teitl allan, gan ei fod, yn ol barn llawer ond odid, yn addaw mwy nag sydd yn cael ei roddi. Y mae'r darlithiau yn cael eu canlyn gan wersi, rhai o honynt yn dra dyddorol. Y mae yr awdwr yn iawn, yn ol ein barn ni am angylion yr eglwysi, sef mai gweinidogion y cyfryw eglwysi ydynt.

Darlith II.—Y Llythyrau at Saith Eglwys Asia.—Y mae yr awdwr yn rhoddi desgrifiad byr ac eglur o wahanol leoedd yr eglwysi. Crist, ebe fe, yw yr hwn sydd yn dal y saith seren yn ei law. "*Mi adwaen dy weithredoedd di.*—Mae Crist yn adnabod yr eglwysi, nid fel un yn edrych o bell, ond fel sylwedydd manol yn ymyl." Ai dyma feddwl ysgrifenydd y Dadguddiad sydd amheus. Nid oes dim yn yr adnod yn gwneyd hyn yn sicr.

Y Llythyr at Eglwys Smyrna.—Y mae yr hen syniad yn dyfod i'r golwg yma o barthed i "Satan, yr hen Sarff." Dywed yr awdwr fod Satan yn hen iawn, ond bod Crist yn henach ac i deyrnasu ar ol i Satan orfod rhoddi ei waith i fynu. Yr unig ryfeddod gyda golwg ar yr awdwr yw na fyddai yr hen syniadau am Satan, duwdod Crist, yr Iawn, &c., yn dyfod i'r golwg yn fwy aml nag y maent o lawer.

Y Llythyr at Eglwys Thyatira.—*Y wraig hono, Jesebel.* Yn ol y

Groeg, "*dy wraig.*" Y mae yr awdwr o'r farn mai gwraig rhyw un o ddylanwad mawr yn yr eglwys oedd hon, ac nid gwraig y gweinidog. "*Mi a roddaf iddo awdurdod ar y cenhedloedd.* Mae hyn yn dod ymlaen yn ddiau mewn cyssylltiad âg enw Jesebel, yr hon oedd o Sidon, ac a ddug dduwiau cenhedlig i Israel; felly yma addawid goruchafiaeth ar y blaid genhedlig yn Thyatira, &c."

Yr Eglwys yn Sardis.—Y mae yma ddesgrifiad bywiog yn cael ei roddi o Sardis, o enau Emerson. Yna y mae yr awdwr yn dywedyd am ddylanwad dinystriol cyfoeth ar yr eglwys.

Eglwys Philadelphia.—Nid oes nemawr yma yn deilwng o sylw neillduol. Gallwn ddifynu y canlynol fel sampl. "Mae Crist hefyd yn addaw eu cadw rhag awr profedigaeth, yr hon oedd i ddyfod ar yr holl fyd. Pa un ai erledigaeth oddiwrth Ymherawdwr Rhufain, neu ynte ymosodiad y Saraceniaid a olygir. Cyflawnwyd hyn i raddau helaeth trwy i'r ddinas ddal allan cyhyd yn erbyn y Tyrciaid."

Eglwys Laodicea.—"*Nad ydwyt nac oer na brwd.*" Mae yn amheus pa un a yw y dull cyffredin o esbonio yn cyfatteb i feddwl Crist. Y dull cyffredin yw, mi a fynwn pe bait annuwiol neu grefyddol. Prin y gellid meddwl fod Crist yn golygu hyn. * * * Ymddengys mai yr hyn a ddymunai oedd eu cael i ryw sefyllfa y byddent yn debyg o deimlo yn anesmwyth ynddi. Mae dyn pan yn oer neu yn boeth iawn, yn debyg o wneyd rhyw ymdrech i wellhau. Ond pan yn glaear mae yn hollol foddlon. * * * Mae yn ffaith fod dynion mewn hinsoddau claear y mwyaf diles yn y byd. *Goludog wyt.* Mae hyn yn taflu goleu ar glaearineb yr eglwys. Gwersi. I. Claerineb mewn crefydd yw y peth adgasaf o bob peth yn ngolwg Crist. Mi a fynwn pe bait oer neu frwd. Dyma frawddeg ddylai gael sylw manylaf pob eglwys a phob Cristion. * * * Mae lle i ofni na bu aelodau Laodicea erioed yn lluosocach nag ydynt yn yr oes hon." "Y gofyniad nesaf yw—Paham yr ysgrifenodd Ioan at *saith eglwys*, a dim ond saith? Tybia rhai mai am eu bod yn agosach i'w gilydd. * * Tybia eraill mai am fod Ioan yn fwy cyfarwydd â'r eglwysi hyn na'r lleill. * * Tybia eraill ei fod wedi cymeryd rhyw saith at amcan er gwneyd i fynu y rhif saith. Llawer o bethau ereill sydd yn cael eu dweyd mewn ffordd o attebiad i'r gofyniad hwn; ond ymddengys i mi fod y llythyrau eu hunain yn atteb y cwestiwn. Yr ydym yn cael o fewn cylch y saith eglwys yma bob sefyllfa y gall yr eglwys fod ynddi ymhob oes. Yma y darlunir i ni eglwys yn mhob math o gyflwr; o eglwys fach dlawd Smyrna, yn ymddifad o bob peth perthynol i gyssuron y bywyd hwn, hyd at eglwys fawr gyfoethog Laodicea, yn llawn o bob daioni bydol, ond yn hollol amddifad o ras. Credwyf fod yn anmhosibl i eglwys fod mewn unrhyw sefyllfa na fydd yn cael darlun o honi ei hun yn y saith llythyr hyn, ac felly yn cael mantais ar unwaith i wybod beth yw barn Crist am dani." Ai dyma feddwl ysgrifenydd y Dadguddiad nis gwyddom; ond hyn allwn ddyweyd, mai dyma'r ergyd mwyaf hapus o eiddo yr awdwr trwy ei holl esboniad. Os cawn hamdden ni a drown at y llyfryn hwn etto. Basanistes.

Y pethau bychain ydyw y rhai yr ydym ni yn eu hadnabod, tra mae'r rhai mawrion tuhwnt i'n cyrhaedd.—*La Place.*

Heddyw yr ydym yn ymweled a beddfeini ein cyfeillion, y fory daw ereill i ymweled a'r eiddom ni.

EDRYCH AT Y CANLYNIADAU.

Oddiar pan y daeth y Bydysawd i fod mewn ufudd-dod i'r *Bydded* Holl-alluog, hyd yr amser presennol, y mae achosion yn barhaus yn dwyn eu heffeithiau dyladwy yn yr un modd, yn unol â rheolau a chyfreithiau yr Anfeidrol Ddoeth a'r Anfeidrol Ddaionus Dduw. Efe yn y cyntaf a sefydl-odd reolau eu gweithrediad, ac Efe sydd yn barhaus, ar bob amser, yn peri fod pob peth yn cymmeryd lle yn unol â rheolau ei osodiad. Efe a greodd ddyn ar y cyntaf ac a'i gosododd yn yr elfen hono yn yr hon yr oedd yn gymmhwys iddo i fyw. Efe a greodd yr awyr, ac Efe a grëodd yr ysgyf-aint, ac a berodd fod un yn atteb i'r llall. Yr awyr bur ydyw'r elfen fywydol yn yr hon y mae dyn wedi ei fwriadu i fyw, ac nid dwfr yr afon neu y môr. Ni roddwyd iddo gyfansoddiad y pysgodyn, yr hyn sydd yn profi na fwriadwyd iddo i fyw yn yr un elfen a'r pysgodyn. Natur dwfr yw boddi er cyn amser y diluwiaid, ac y mae profiad yn dysgu mai natur dwfr yw boddi yn y dydd presennol hefyd. Natur tân yw llosgi er pan y mae tân yn bod, ac y mae yn parhau yr un peth hyd etto. Y mae i bob peth ei natur briodol ei hunan, ac yn ei gylch priodol ei hunan y mae iddo ei amcan doeth a daionus. Ond allan o'i gylch priodol, allan o'r cylch y bwriadwyd iddo, y mae pob peth yn niweidiol.

Y mae deddfau i gyfansoddiad dyn, ac mewn ufudd-dod i'r deddfau yma y mae cysur a diddanwch dyn yn gynnwysedig. Yn nadblygiad ei gyn-neddfau naturiol, moesol, a deallol y mae ei ddedwyddwch uwchaf a phuraf yn gynnwysedig. Er mwyn cyrhaedd y dedwyddwch hwn ynte, y mae yn rhaid yn gyntaf i gael gafael ar y wybodaeth—gwybodaeth o natur y cyfan-soddiad, a gwybodaeth o natur y cyssylltiad sy rhwng ei gyfansoddiad ef a'r byd oddiamgylch iddo. Nid oes dim a rydd gymmaint o wir bleser i ddyn a'r ymgais am y wybodaeth hon, ac nid oes un trysor mor werthfawr iddo a meddiant o wybodaeth fuddiol. Dylai pob dyn ofyn ychydig o gwestiynau iddo ei hunan, yn awr ac yn y man—rhywbeth yn gyffelyb i hyn :—Beth ydwyf? O ba le y daethum? I ba beth y daethum? Pa beth ydyw amcan a diben y bod a'r bywyd yr wyf yn eu mwynhau? Beth ydyw fy nyled-swyddau tuag ataf fy hun?—tuag at fy nghyd-ddynion?—a thuag at fy Nuw? Ac yn ol fel y byddo yn gallu ffurfio attebion i'r gofyniadau hyn y bydd ei wybodaeth am ei sefyllfa yn y byd yma.

Nid oes un dyn yn y byd yma yn anymddibynol. Anymddibyniaeth—perthyn i Dduw yn unig y mae. Anymddibyniaeth mewn perthynas i ddyn—dychymmyg ffol—ammhossibilrwydd ydyw. Yr ydym bawb yn aelodau o'n gilydd—bawb yn angenrheidiol i gysur ein gilydd—bawb megys yn lingciau yn yr un gadwyn fawr, yr hon sydd a'i dechreu yn Adda—nag e, yn Nuw, a'i therfyn—yn nhragwyddoldeb—yn Nuw. Y mae pob oes sydd wedi treiglo ymaith oddiar amser Adda hyd yn awr wedi gadael ei hôl ar y byd. Nid oes ddyn erioed wedi ymddangos yn y byd, bydded efe mor ddi-bwys bynag ag y byddo, nad yw efe wedi gadael ei ddylanwad er da, neu ynte er drwg, fynychaf bob un o'r ddau, ar ei oes a'i genhedlaeth. Y mae adeilad y presennol yn wastad wedi ei wneuthur i fyny o'r holl oesoedd sydd wedi myned heibio. Y mae profiad y presennol wedi ei wneuthur i fyny o brofiad yr oesoedd a aethant heibio. Y mae dynol ryw felly gyda threigliad yr oesoedd yn treiglo at fwy fwy o berffeithrwydd. Y mae dynion, er iseled yw llawer o honynt, yn ymestyn am fywyd uwch, purach, gwell. Y mae gwybodaeth yn cynnyddu. Y mae dedwyddwch yn cynnyddu. Y mae'r

ddau yn myned lawlaw rhag eu blaen. Y mae dynion yn raddol yn dyfod i wybod fod eu dedwyddwch yn gynnwysedig mewn gwneuthur daioni, nid iddynt eu hunain yn unig, ond i eraill hefyd. Nis dichon neb da fod yn ddedwydd tra fyddo ei frawd neu ei gymnydog yn annedwydd ar ei bwys. Dylai pob dyn gan hyny geisio ei ddedwyddwch ei hun yn nedwyddwch ei gyd-ddynion. Dylai wneuthur pob daioni ag a allo i bawb, a bydd pob gweithred dda a wnelo yn dylanwadu er daioni ar bawb a'u gwelo. Nid oes neb a wyr, ond Duw ei hun, helaethed yw'r cylch sydd yn cyfyngu dylanwad gweithred dda neu ddrwg. Oblegid y mae i bob gweithred heblaw ei chanlyniadau uniongyrchol, ganlyniadau ereill yn ei dylanwad fel esampl i'r rhai a'i gwelant neu a glywant am dani. "Nid oes un dyn mor ddibwys," meddai Arglwydd Clarendon, "fel y gall fod yn sicr na wna ei esampl ddim drwg." Dylai pob un gan hyny geisio fod pob gweithred o'i eiddo o'r iawn ryw, yn tueddu er lles a daioni pawb a ddelo o fewn cylch ei dylanwad. Ond aml, aml, fel y mae gwaethaf y modd, y cyflawnir yr hyn sydd er niwed yn lle er lles. Yn aml y mae dyn yn cyflawni yr hyn sydd yn tueddu i beryglu hawddfyd a chysur, ac efallai fywyd ei gyd-ddyn, a hyny lawer tro er mwyn hunan-les neu fympwy dwl o'i eiddo ei hunan. Yn rhy aml y mae dynion yn gweithredu heb ystyried na meddwl dim beth fydd y canlyniadau —gan beryglu fe ddichon eu bywydau eu hunain a bywydau ereill hefyd.

Yr oedd genyf rai sylwadau ereill i'w gwneuthur, Mr. Golygydd, ond y mae'n rhaid i mi ymattal yn bresennol rhag i'r porth fyned yn fwy na'r eglwys, ac i chwithau ddywedyd fy mod yn rhy debyg i'r mynyddau y soniai Horace* gynt am danynt, y rhai mewn gwewyr a esgorasant ar lygoden. Yr hyn yr oeddwn yn amcanu ato yw'r ymddiddan a ganlyn, yr hwn a gymmerodd le mewn pwll glô yn Lloegr, ni waeth pa le yno, ni waeth pa bryd. Y mae un cyffelyb iddo wedi ac yn cymmeryd lle yn ddigon mynych, gyda hyn o wahaniaeth, fod y rhegfeydd (y rhai ydynt yn rhy aml yn cael eu cyfrif gan y glöwyr yn rhanau anhebgorol angenrheidiol i berffeithrwydd eu hymddiddanion) wedi cael eu gadael allan, am nad ydynt yn weddaidd i gael ymddangos yn yr YMOFYNYDD; garw na allaswn gyda'r un rhwyddineb osod attaliad arnynt i lithro dros wefusau halogedig y sawl sydd yn eu defnyddio. Ond o helaethrwydd y galon y llefara'r geneu. 'Dydw' i ddim am dynu eu calonau hwynt allan hefyd, byddai hyny yn ormod cosp.

"'Nawr fechgyn," meddai *steward* y pwll glô, un boreu fel yr oedd y glöwyr yn crynhoi at ben y pwll ac yn aros eu tro i fyned i lawr. "'Nawr fechgyn, 'does dim rhagor o ganwyllau i gael eu uwso am dipyn, y mae yna beth siompol lawr o'r nwy yna. Yr ydw i wedi bod lawr fy hunan, y mae yn rhy beryglus, yn enwedig yn y *drift* newydd yna." Yr oedd y dynion yn ceintach yn dost ac yn gwneuthur defnydd lled helaeth o'r llŵon a'r rhegfeydd sy mor gyffredin yn eu plith, ac yn dywedyd nad oedden' nhw ddim wedi gweld un perygl neillduol. Ond y gwir o'r peth oedd, 'doedd dim o'r *safety lamp* yn rhoi cystal goleu a'r ganwyll, 'doe'n nhw ddim yn gallu gweithio mor hwylus nac yn gallu ennill cystal hur. Ond gorfododd y *steward* arnynt ufuddhau, ac wele ffwrdd â nhwy a'u lampau yn eu dwylaw at eu gwaith. Ymhen ychydig amser wedi hyny fel yr oedd dau o honynt yn neshau at eu gwaith yn y màn pellaf yn y '*drift* newydd' oedd y *steward* wedi sôn am dano, dywedodd un o honynt wrth y llall gyd â'i lŵ

* "Parturiunt montes nascetur ridiculus mus."—*Hor. Ars Poet.*

arferol,—"Gwddot ti beth, Wil, fi ffustas i 'rhên ganddo heddy yto! O'n i'n meddwl y busa fa'n mofyn i ni fynd a'r *safeties* heddy, wath fi welas i'r *damp* ddô yn bosto mâs yn bishtilla."

"O na paid da machgen i," meddai Wil, "y ma bai arnot ti, ôs wir, ôdd yna beth ofnadw o'r *damp* ddô, 'rôdd y *steward* yn eitha reit, ôdd wir. Os uwsi di dy ganwylla, a gna fel bot ti'n leico, uwsa i ddim o nw."

Yr oedd hên golier o'r enw Dafydd Winnock, hên wr a adnabyddid ac a berchid gan bawb fel hên ŵr call a sobr, tawel a distaw, yn cerdded o fewn i dipyn bach ar eu hol, 'd oedd e ddim yn gweithio yn yr un màn a nhwy, ond yr oedd yn myned i 'mofyn picish oedd e wedi roi'n fenthyg iddi nw. Clywodd yr ymddiddan, ac meddai wrth yr un a siaradodd gyntaf—"Dic, 'does genyt ti ddim reit i osod bywydau dynion ereill mewn perygl, os nad wyt ti'n gosod gwerth ar dy fywyd dy hunan; pe gallasit ti gymmeryd y canlyniadau i gyd ar dy ysgwyddau dy hunan, gallasit wneud fel y mynnit o'm ran i a boddloni dy fympwy. Ond 'dalli di ddim gwneud hyny fel y gwyddost, ac os uwsi di dy ganwyllau a thynu dinystr trwy hyny ar dy ben dy hunan, ti dyni ddinystr digon tebyg arnom ninnau hefyd yr un pryd. 'Nawr paid da machgen i, paid 'rwy'n deisyf arnat ti, paid a *jestan* a'r canwyllau yna—a beidi di, addewa nawr neu mi af i i nol i mofyn y gaffer." Wedi hir gipian, addawodd Dic i beidio mhêl a'r canwyllau, ac fe gymmerodd yr hên Ddafydd Winnock ei bicish a ffwrdd ag ef at ei waith.

Ymhen dwy awr wedi hyny aeth trwst megys trwst taran trwy'r pwll, ac ymhen ychydig funydau 'roedd y tyrfäoedd yn brysio at ben y pwll, a'r merched a'r gwragedd yn wylo ac yn ocheneidio ac yn screchain. Yr oedd un yn ofni am ei gwr, un arall am ei thad, ac un arall drachefn am ei brawd, Yr oedd pob un yn ofni am rhywun oedd yn anwyl ganddi. Ac i lawr yn y pwll, yr oedd pob un ag a allai yn treio gweithio ei ffordd trwy y mwg a'r damp fud wenwynig at ryw fan lle'r oedd yn gobeithio cael siawns am ei fywyd.

Yr oedd yr hên Ddafydd Winnock yno yn ddiogel, ac un ar ol y llall fe godwyd y rhan amlaf o'r dynion i fyny, canys nid oedd y tân ddim wedi bod ond yn y "*drift* newydd." Yr oedd rhywle tuag ugain o ddynion oedd yn gweithio yn y *drift* hwnw ar goll, a phan daethpwyd o hyd iddynt, ychydig ddiwrnodau wedi hyny yr oeddynt wedi marw bob un, ac *ar bwys Dic*, sylwch, *fe gawd y ganwyll.* Yr oedd yn amlwg ei fod wedi treio gweithio am dipyn bach wrth y *safety*, ond yr oedd yr amynedd yn rhy fyr, gosododd y *safety* o'r neilldu, a chymmerodd at y ganwyll noeth, a chanlyniad ei weithred ffol ac anystyriol oedd marwolaeth i ugain o weithwyr caled, a dinystr a thrueni i ugain o gartrefleoedd. Cyflawnodd ei weithred ffol ac fe gafodd ddioddef y canlyniadau, ond och fod ugain o'i gydweithwyr yn gorfod dioddef gyd âg ef, a chymmaint a hyny o deuluoedd yn cael eu symmud o ganol llawndid a digonedd i ganol tlodi a thrueni.

Dyna'r stori fel y cefais i hi, o leiaf yn agos felly, y mae yn siarad drosti ei hunan. Cymmered pob dyn hi at ei ystyriaeth, ïe, fe ddylai pob un wneud hyny ac edrych na byddo dim a wnelo efe er niwed i'w gyd-ddyn yn un modd yn y byd. Y mae yn ddigon i bob dyn i ddioddef canlyniadau ei weithredoedd ei hunan, y mae'n rhaid iddo ddioddef y rhai hyny. Ond y mae yn beth truenus fod neb yn gorfod dioddef o herwydd anystyriaeth ereill —fod ffolineb un yn dwyn tlodi a thrueni i ganol ugain neu ragor o deuluoedd cwmfforddus.

EWYLLYSIWR DA.

PREGETH YN ERBYN ENLLIB A PHOB GOGAN-AIR.

GAN JOSIAH REES.

Caerfyrddin : Argraffwyd gan J. Ross, 1776.

——— Absentem qui rodit amicum,
Qui non defendit, alio culpante ; solutos
Qui captat risus hominum, famamque dicacis :
Fingere qui non visa potest ; commissa tacere
Qui nequit ; hic niger est : hunc tu, Romane, caveto.

Horace.

Na chno un dyn llwyr ei gefen,
Ac nac arfer gair drwg-absen :
Gwaeth nâ chledde llym dau-finiog
Ydyw enllib dyn celwyddog :—
Gwaeth nâ morwor poeth yn llosgi,
Gwaeth nâ saethau un o'r cewri.—*Ficer Llanddyfri.*

Gwaethaf un o'r holl wyllt-filod
Yw'r absennwr drwg ei dafod.—*Iago ab Dewi.*

Iago iv. 11.—"*Na ddywedwch yn erbyn eich gilydd, Frodyr.*"

Gogoniant neillduol dynolryw, a nôd enwedigol o'u rhagoriaeth ar greaduriaid direswm, yw'r dawn o ymadrodd. Trwy hwn eu cymhwysir, nid yn unig i gyfeillachu â'u gilydd, ac i fwynhau manteision a hyfrydwch cymdeithas, eithr hefyd i addoli a moliannu Duw, a dal cymmundeb ag ef. "A'r tafod yr ydym yn bendithio Duw," Iago iii. 9. Ond galarus yw meddwl cynddrwg, a chyn fynyched, y mae'r aelod anrhydeddus a manteisiol yma yn cael ei gamarfer, a'i droi i'r gwasanaeth gwaelaf a mwyaf niweidiol. A'r tafod hefyd yr ydys yn melldithio dynion, a wnaethpwyd ar lun Duw ; o'r un genau y mae yn dyfod allan fendith a melldith. Yn lle yr ymadroddion da hynny ag sy'n fuddiol i adeiladu, a pheri gras i'r gwrandawyr, pa mor aml yw'r ymddiddanion drwg hynny, ag sy'n halogi ac yn llygru meddyliau a moesau dynion !

Ym mhlith amrywiol bechodau'r tafod, nid y lleiaf, na'r lleiaf cyffredin ysywaeth, yw'r arfer o *enllibo* ac *absennu* dynion : mor gyffredin ydyw, fel "nad oes nemmawr iawn i'w gael heb fod yn glaf hynodol o'r afiechyd yma : fe'n boddheir gymmaint a hynny gan ryw felusdra gwenwynig mewn chwilio allan, a chyhoeddi drygau rai eraill."* Mi a dybiais gan hynny na's byddai yn anfuddiol, eithr yn hytrach ei fod yn dra angenrheidiol, i gynnyg ychydig o bethau at ystyriaeth dynion ynghylch yr arfer yma ; ac mi a ddewisais yn destun y rhybudd hwn o eiddo'r apostol Iago, "Na ddywedwch yn erbyn eich gilydd, frodyr."

Yr hyn a waherddir yn y geiriau yma yw, dywedyd unrhyw beth ag y fyddo er niwaid ac anfantais i ddynion eraill, neu yn tueddu i leihau eu cymmeriad a'u gair da. Yn awr, i drin y matter yma mor eglur ag y gallwyf, mi a geisiaf,

I. Ystyried natur y bai a waherddir yn y testun :

II. Yr achosion pennaf a hono :

III. Cynnygaf rai rhesymmau ac annogaethau i berswadio dynion i ochelyd y bai yma :

IV. Rhai cyfarwyddiadau i'r diben hynny : ac

* Calfin.

V. Yn olaf—Ychydig o gynghorion i'r sawl ag fo'n dioddef oddiwrth ddrwg-absen dynion eraill.

I. Ystyriwn *natur* y bai a waherddir yn y testun. Ac i'r diben hyn, ymofynnwn yn y lle blaenaf pa beth *nid* yw yn waharddedig yn y geiriau, ac yna fe fydd haws i ni weled pa ryw fath ddywedyd yn erbyn ein gilydd sydd gennym i'w ochelyd.

1. Ymofynnwn pa beth *nid* yw yn waharddedig yn y geiriau.

(1.) Ni waherddir dim i ni ddywedyd yr hyn a wyddom yn erbyn arall fel *tystion*, pan alwer arnom trwy awdurdod cyfreithlon. Yn wir y mae tystio celwydd yn erbyn neb yn beth ag sydd yn waharddedig bob amser, ac yn drosedd pendant o'r nawfed gorchymyn; sef, "Na ddwg gam-dystiolaeth yn erbyn dy gymmydog." Eithr y mae dwyn tystiolaeth gywir yn erbyn arall, nid yn unig yn gyfreithlon, ond ar rai achlysuron yn ddyledswydd anhepgorol, Lef. v. 1. Etto bod yn barod ac yn awyddus i gyhuddo eraill, a dywedyd y drwg a wyddom neu a glywom am danynt, heb ddigon o achos, a golwg ar atteb rhyw ddiben da; hyn sydd beth beius iawn ac anesgusodol, ac yn nod sicr o lawer o natur ddrwg, heb ddywedyd dim rhagor.

(2.) Ni waherddir i ni chwaith ddywedyd yr hyn a wyddom yn erbyn dyn, naill ai wrtho ef ei hunan, neu wrth eraill, gyda dymuniad cywir i *wneuthur daioni* iddo. Y mae yn ddyledswydd arnom, pan fo dyn wedi gwneuthur ar fai, i'w rybuddio a'i geryddu o'i blegid, pan y gallom wneuthur felly gyda challineb, a golwg ar atteb diben da, Lef. xix. 17, "Gan geryddu cerydda dy gymmydog, ac na ddioddef bechod arno." Ond lle na's gallom gymmeryd cymmaint a hynny o rydd-did, neu na bo gennym un mesur o obaith am lwyddo, ni a ddylem wneuthur bai dyn yn hysbys i'r cyfryw ag fo'n meddu mwy o awdurdod, a digon o ffyddlondeb i'w geryddu yn ol yr achos. Oddi ar yr egwyddor yma, yr oedd yn beth canmoladwy yn Joseph i ddywedyd wrth ei dad am gam-ymddygiad ei frodyr, Gen. xxxvii. 2; ac felly yn y bobl i ddywedyd wrth Eli am ddryg-air ei feibion, 1 Sam. ii 23; ac yn y rhai o dŷ Clöe i hyspysu i'r Apostol fod cynhennau ym mhlith y Corinthiaid, 1 Cor. i. 11.

Ond fe weddai i ni gymmeryd llawer o ofal i wybod y gwirionedd o'r peth a ddoder yn erbyn dyn, cyn y bo i ni fyned ynghylch ei geryddu ef, neu ddywedyd wrth neb arall am dano. Canys cam tosturus yw cyfrif bai i ddyn ag fo yn rhydd oddiwrtho.* Ac wedi cael sicrwydd digonol am y peth, gyda chymmaint o fwyneidd-dra a thynerwch ag allom, ni a ddylem ddangos yn amlwg nad ym ni ddim yn coffa ei fai o ddrwg-ewyllys, neu i ddangos ein hawdurdod, neu'n rhagoriaeth mewn doethineb neu ddaioni; eithr yn unig allan o gariad atto, a dymuniad calonnog i ddwyn oddiamgylch ei wellhâd. Dyma yw y rheol Grist'nogol, "Y brodyr, os goddiweddir dyn ar ryw fai, chwy-chwi y rai ysprydol adgyweiriwch y cyfryw un mewn ysprydd addfwynder," Gal. vi. 1.

(3.) Ni waherddir i ni ddywedyd yn erbyn eraill os bydd hyn yn angenrheidiol er *amddiffyn ein hunain.*

Fe ddigwydd weithiau na allwn ni ddim dangos ein diniweidrwydd, ac amddiffyn ein hunain oddiwrth yr hyn a ddoder i'n herbyn, heb ddatguddio

* "Blin ac annioddefol yw myned ynghylch dyn âg offeryn llym i agor ei gil-ddannedd, a thynnu dant iach allan: Och artaith! artaith! Mynnwch wybod yn gyntaf a yw ei ddant yn bwdr. Nid llai poenus ac arteithiol yw gweled un yn hela am anwiredd yn nhŷ y cyfiawn." Gwel Pregeth Mr. Daniel Rowland "ar gerydd a chariad brawdol."

beiau rhai eraill. A than y cyfryw amgylchiad ni allwn wneuthur felly yn gwbl ddifeius: oblegyd os ymadawn ni â'n gair da er mwyn diogelu eiddo ein cymmydog, ni a wnawn lawer o gam â ni'n hunain, ac a estynnwn ein cariad tu hwnt i'r hyn sydd 'sgrifennedig. 'E fyddai'n ddigon da pe caid gan ddynion *garu eu cymmydogion fel hwynt eu hunain;* ni ofynnir iddynt eu caru yn fwy.

(4.) Y mae hefyd yn gyfreithlon i ni ddywedyd y drwg a wyddom am ddyn, er mwyn *diogelwch* dynion eraill. Os byddwn ni yn gwybod am dano, ei fod yn beryglus i neb ymgyfeillachu ag ef, neu ei fod yn aelod niweidiol o gymdeithas, y mae yn beth cymmwys ac angenrheidiol i'w gynheddfau drwg ef gael eu gwneuthur yn adnabyddus, mor belled ag y byddo achos, fel y gallo dynion edrych attynt eu hunain, ac ymgadw rhagddo: ac yn enwedig os bydd yn ceisio cuddio ei ddrygioni dan liw o grefydd a sancteiddrwydd, rheitaf i gyd oll yw i ni ddodi ein cyd-ddynion ar eu gocheliad. Ond lle na byddo tebygolrwydd amlwg o wneuthur daioni trwy gyhoeddi pechodau rhai eraill, pob dyn doeth a da a ddewis fod yn ddistaw.

(5.) Ac yn olaf. Nid yw yn anghyfreithlon i ni ddywedyd wrth ryw *gyfaill* mynwesol a ffyddlon am bechodau rhai eraill, yn enwedig eiddo ein brodyr Crist'nogol; ond i ni wneuthur felly o wir ofal a gofid o'u plegid, ac o blegid yr achos ag fo'n dioddef trwyddynt. Neu os bydd neb wedi cam-ymddwyn tuag attom ni, ac wedi ein hammharchu a'n niweidio, ni a allwn yn rhydd ddigon fyned at ryw gyfaill profedig ac achwyn wrtho: fe allai y dichon efe roddi i ni gyngor neu gynhorthwy; o'r hyn lleiaf efe all gydymdeimlo â ni, ac fe fydd hynny yn rhyw faint o gysur i ni, os ni all ef wneuthur dim rhagor.

Yn hyn y mae yn gyfreithlon i ni ddywedyd yn erbyn eraill, fel tystion,—neu gyda chywir ddymuniad i wneuthur daioni iddynt,—neu er mwyn amddiffyn ein hunain,—neu er diogelwch i ddynion eraill,—neu wrth gyfaill ag allo ein cynnorthwyo neu gydymdeimlo â ni. Ystyriwn yn nesaf,

2. Pa fath ddywedyd yn erbyn ein gilydd sydd raid i ni i'w ochelyd.

(1.) Dywedyd am eraill yr hyn a *wyddom nad* yw yn *wirionedd*, yn ddiammeu a waherddir yn y testun; a phechod ydyw o'r lliw duaf.

A'r pechaduriaid mwyaf nodedig yn yr ystyr hyn yw, y rhai a *dyngant anudon* yn erbyn eraill, ac a *ddodant eu dwylaw gyda'r annuwiol i fod yn dystion anwir*, Ecsod. xxiii. 1. Y cyfryw a hyn ydoedd y meibion hynny i'r fall, y rhai a ddygent gam-dystiolaeth yn erbyn Naboth, gan ei gyhuddo o gabledd yn erbyn Duw a'r brenin; ac Ahab hefyd yr un ffunud, am ei fod yn cydsynio yn y weithred ddrygionus, o herwydd paham y dywedir iddo "ymwerthu i wneuthur yr hyn oedd ddrwg yng ngolwg yr Arglwydd," 1 Bren. xxi. 10, 20.

Ond pa faint gwell neu lai euog yw'r dynion hynny, ag a ddyfeisiant newyddion celwyddog am eraill; neu a dderbyniant yn awyddus y cyfryw,* ac a'u cyhoeddant, er gwyhod na bo dim gwirionedd ynddynt. Megys ag y dywedodd ein Iachawdwr am y Phariseaid ag oedd yn dwyn barn gablaidd yn ei erbyn ef, felly y gallwn ninneu ddywedyd am y cyfryw, mai o'u tad diafol y maent, ac mai trachwantau eu tad a fynnant hwy eu gwneuthur, Ioan viii. 44.

(2.) Y mae dywedyd yn erbyn eraill yr hyn a *ddichon* fod yn wirionedd, ond *heb wybod yn sicr* pa un a'i fod felly neu beidio, yn waharddedig hefyd.

* Gwel Salm xv. 3.

Fe all hyn ysgatfydd gael ei gyfrif yn râdd îs o ddrwg-absen, a ymddangos yn llai gwaradwyddus yng ngolwg y byd, yn enwedig y rhan anystyriol o hono; ond sicr yw ei fod yn bechod mawr, ac yn argoel bob amser o lawer o fyrbwylldra ac anystyriaeth, ac yn fynych o anghariad hefyd a drwg-ewyllys.

(3.) Ac yn olaf. Y mae yn waharddedig i ni ddywedyd yn erbyn neb yr hyn a *wyddom* ei fod yn wir, heb *ddigon o achos.* Y mae cyhoeddi beiau neu wendidau dynion, heb olwg ar atteb rhyw ddiben da iddynt hwy neu eraill yn anghyfreithlon. Yr oedd yn cael ei wahardd gynt dan y gyfraith, Lef. xix. 16, "Na rodia yn athrodwr ymysg dy bobl." Ac medd Solomon, "Na fydd dyst heb achos yn erbyn dy gymmydog," Diar. xxiv. 28.

Cyn gadael y pen yma, y mae'n gymmwys i mi ddal sylw, fod gan rai dynion ffordd gyfrwys i gablu eraill, a magu drwg-dybiau yn eu herbyn; nid mewn geiriau amlwg, ond trwy awgrymmau tywyll, ac ymadroddion hannerog dauddyblyg: "A glywsoch chwi," meddant, "am hwn neu hon? Nid wyf fi ond gofyn; mi a glywais ryw beth, ac y mae yn ddrwg gennyf am dano; yr wyf fi yn dewis bod yn ddistaw; gobeithio nad gwir yw'r peth." Fel hyn y mae malais ddu weithiau, gyd ag wyneb têg tosturiol, yn brathu enwau da rhai eraill. Arfer gâs gythreulig yw hon, gocheled pob Cristion hi.

II. Cymmerwn olwg ar rai o *achosion* pennaf y pechod hwn.

1. Dynion a ddywedant yn erbyn eu gilydd yn fynych er mwyn *difyrwch.* Er mwyn bod yn gymmeradwy lle byddont, a rhyngu bodd y gyfeillach, hwy a gymmerant lawer o rydd-did gyd ag enwau da pobl eraill; a hynny yn fynych ar gost y gwirionedd. Fel hyn, i atteb diben mor ddistadl, ac oddiar egwyddor mor wael ac anheilwng, y mae llawer person rhagorol wedi cael ei ddihatru o'i urddas a'i air da; yr hyn dan rai amgylchiadau sydd waeth nag angau. Solomon a gydmara'r cyfryw i "ddyn gwallgof a daflo bentewynion tân, saethau, ac arfau marwolaeth, ac a ddywed, Onid cellwair yr ydwyf?" Diar. xxvi. 18, 19,

2. Fe arweinir dynion yn fynych i'r pechod yma trwy *ymyraeth yn afreidiol â matterion rhai eraill.* Bai ag y mae llawer iawn yn euog o hono, a thrwy hynny yn llithro i enllib a drwg-absen hefyd, yn fynych yn ddiarwybod iddynt eu hunain. Y maent yn dra ymofyngar ynghylch achosion yr holl wlad, fel nad oes gymmaint a theulu, na pherson neillduol o fewn eu cyrraedd, yn cael diange yn ddisylw; nac un ystori yn myned heb fod yn eu meddiant hwy mewn byrr amser. Ac nid ydyw yn beth tebygol oll iddynt gael clywed cymmaint am eraill yn ddiachos, heb gwympo hefyd eu hunain i'r un bai.

3. Dynion yn fynych a ymollyngant i'r bai yma o *eisiau pwyll* i lunio barn gywir am bethau, neu bersonau. Hwy a gondemniant weithred, ac a ddywedant yn erbyn y neb a'i gwnaeth, pan ni byddont yn gwybod dim am y matter, nac wedi ystyried yn ddiduedd gymmaint ag un amgylchiad perthynol iddo. Nid ydynt yn meddwl, nac yn ymofyn, pa ryw demtasiynau cryfion alsai fod ar ffordd dyn, a'i orchfygu ef; pa gynheddfau da sydd ynddo; neu pa ryw resymmau sylweddol a ddichon fod ganddo dros ei ymddygiad, er eu bod yn anadnabyddus iddynt hwy, ac fe allai i eraill gan mwyaf. Yn wir prin y mae yn bosibl i ni fod yn rhy wagelog, pa fodd y bo i ni, oddiwrth neb rhyw weithred neu amgylchiad neillduol, roddi barn galed ar un dyn, a goddef i'n serchiadau oeri tu ag atto; oddieithr bod ei ymddygiad cyffredinol ef yn dangos drygioni amlwg.

4. Dynion a ddywedant yn erbyn eu gilydd yn fynych allan o *nattur ddrwg a malais.* Pan y byddo dyn yn hoffi dywedyd yn ddrwg am eraill, y mae yn argoel o fod tymmer ddrwg ynddo ef ei hunan; o blegid "o helaethrwydd y galon y llefara y genau," Mat. xii. 34. Y mae y drwg-ewyllys a'r malais ag sydd oddifewn iddo, yn ei dueddu bob amser at yr ochr anghariadus, ac yn ei wneuthur yn llawer mwy parod i gredu, ac i adrodd, a chofio newydd drwg na newydd da. Pan gaffo rhyw beth da a chanmoladwy ei ddywedyd am ryw un, y dyn maleisus a fydd barod i ddywedyd, "Dyna ryfeddod! digon da os gwir yw: ond braidd yr wyf fi'n ei gredu ef." Neu os bydd iddo addef fod y peth yn wir, a'r weithred ynddi ei hun yn ganmoladwy, etto odid na bydd iddo gwestiyno cywirdeb y diben oddiar pa un ei cyflawnwyd; gan ddywedyd, "Digon gwir, fe wnaeth hwn a hwn y cyfryw weithred dda, ond nid oes diolch yn y byd iddo, o blegid yr oedd ganddo ef ryw ddibenion hunanol i'w hatteb trwy hynny, onid ê ni wnelsai efe byth 'mo honi." Yr un modd a Satan, yr hwn pan na alsai fe ddywedyd dim yn erbyn enw da Job, a grybwyllodd ei fod yn hunanol, neu nad oedd ond rhagrithiwr yn y cwbl: "Ai yn ddiachos, ebe efe, y mae Job yn ofni Duw? Cyffwrdd â'r hyn oll sydd ganddo, ac efe a'th felldiga o flaen dy wyneb," Job i. 9, 11.

5. Y mae dynion lawer gwaith yn dywedyd yn erbyn eraill allan o *genfigen.* Y mae rhai yn flin ac yn anhappus o achos eu bod yn gweled eraill yn gyfoeth-occach, neu'n ddoethach, neu'n well nâ hwynt eu hunain; ac yn lle ymostwng yn ddiolchgar i'r cyflyrau a drefnwyd iddynt, neu ddefnyddio y manteision sy' ganddynt i gynhyddu mewn doethineb a daioni; ceisio yn ddrygionus a wnant, trwy anair ac enllib, ddodi eraill i ymddangos mor wael a hwythau. A lle byddo cenfigen, yno hefyd yn fynychaf y mae *balchder.* A dynion o'r dymmer yma a edrychant yn wastadol ar y da a gaffo ei ddywedyd am eraill, a'r clod a rodder iddynt, fel cymmaint a hynny o golled iddynt eu hunain; ac am hynny, trwy ddywedyd yn athrodgar yn erbyn y cyfryw, ymdrechant i'w dwyn mor isel, a pheri iddynt ymddangos mor ddued ag fo posibl, fel y caffont hwy eu hunain eu dyrchafu, a'u gosod yn y goleuni mwyaf manteisiol.

6. Achos arall o ddrwg absen yn fynych yw tymmer *ymddialgar.* Pan welo dyn, neu pan y meddylio, ei fod wedi cael ei niweidio gan eraill; eu bod hwy wedi dywedyd yn ddrwg am dano, neu wedi ymddwyn yn ddrwg tu ag atto; pa mor barod fydd yntau i geisio talu'r pwyth, trwy gymmeryd rhydd-did i ddywedyd yn galed am danynt hwythau. Y mae yn digwydd yn fynychaf, pan fo ymddial yn cymmeryd lle, fod dyn yn colli'r llywodraeth arno ei hun, a'i nwydau yn cael eu cyffroi dros derfynau; yr hyn a bair iddo edrych ar ei wrthwynebwr mewn goleuni llawer gwaeth nag y dylai. Os digofaint ymddialgar a gaiff eistedd yn farnwr, bydd yn sicr o fawrygu y bai, a bod yn rhy chwerw yn ei erbyn. A hyn a gyffry nwydau llidiog y dyn arall, ac felly eir ymlaen mewn dialedd o bob ochr, fel na wyddys pa bryd na pha le y dibennir. "Pen neu ddechreu y gynnen sydd megis ped agorid argae, neu gronfa dyfroedd; am hynny gad ymaith ymryson cyn ymyrryd arni," Diar. xvii. 14.

Rheol ragorol a roddir i ni gan un gwr yn y matter yma yw, "Bod i ni, tra byddo ein nwydau heb gwbl oeri, fwriadu dywedyd yr holl dda a wyddom am ein gwrthwynebwr: ond os ni allwn ni wneuthur hyn, bod i ni fwriadu ynte na ddywedom ni ddim am dano ymhellach nag y byddo hunan-amddiffyniad yn ein rhwymo."

7. Ac yn olaf. Y mae dynion yn rhy fynych yn dywedyd yn erbyn eu

gilydd oddiar *ragfarn anghariadus* neu *zêl ddall a chamsyniol* mewn matterion crefydd. Ffrwythau naturiol yspryd rhagfarnllyd yw barnau culion, a geiriau celyd. A phan y byddo dynion dan lywodraeth y dymmer gyfyng yma, y mae yn eu gwneuthur mor annheg ac mor ffyrnig, fel na ddichon neb anghyttuno â hwynt, nac amrywio yn y mesur lleiaf oddiwrth eu prawfnodau hwy, heb gael yn ddiattreg eu gosod allan ganddynt fel rhai afiach yn y ffydd, fel hereticiaid, neu dan ryw enw caled a gwaradwyddus arall. A phwy bynnag ni chydrodio â hwy yn yr un llwybr cul, ac ni fynnant weled â'u llygaid hwynt, neu broffesu gwnenthur felly o'r hyn lleiaf, ni phetrusant eu darlunio fel eu gelynion, a gelynion pob daioni, ac ymddwyn tu ag attynt fel y cyfryw.* Ac oddi yma y tarddodd *chwerwedd, a llid, a dig, a llefain, a chabledd, gyd â phob drygioni.* Oddi yma y tarddodd yr holl farnau anghariadus condemniol a saethwyd allan fel byllt yspryd drwg, o bryd i bryd, mewn seneddau a chymmanfeydd gweinidogion; pob math o draarglwyddiaeth ar ddynion mewn matterion o ffydd a chydwybod, a holl erledigaethau gwaedlyd a barbaraidd eglwys Rhufain, ac eglwysi eraill: canys pa eglwys bynnag y bo dynion o'r yspryd anghrist'nogol yma yn perthyn iddi, fe wyddys trwy ormod o brofiad eu bod yn sicr o droi'n erlidwyr, os bydd ond awdurdod yn eu dwylaw.

Ond lle bo yspryd gostyngedig hawddgar crefydd yr Iesu yn aros, y mae yn cyd-ddwyn yn ddiwarafun â gwahaniaeth mewn barn; ac y mae pawb ag sy'n cael eu harwain gan yr yspryd yma, yn derbyn eu gilydd, megys ag y derbyniodd Crist hwythau, Rhuf. xv. 7. Ac y mae zêl y cyfryw yn wastadol yn cael ei thymheru gan y Cariad hynny, ag sy'n dioddef pob dim, ac yn credu, ac yn gobeithio am bob dim, yn y modd mwyaf tyner a ffafriol.

(I'w orphen yn ein nesaf.)

CREDINIAETH Y LLYWODRAETHWR LIVINSTON.

"CREDAF yn yr Ysgrythyrau, yr Hen Destament a'r Newydd, heb un eglurhad neu esboniad dynol ond yr eiddo fy hun. Am ba hyfdra o'm heiddo y cawswn yr anrhydedd o ferthyrdod, oni buasai fy mod yn byw odditan y llywodraeth sydd yn ffrwyno y sêl danllyd hono a wnai ddarostwng cyrph dynion i ludw er claer-oleuo eu dyalldwriaeth.

"Credaf fod y gair UNIAWN GRED yn un caled, ambeus, neu fferen offeiriadol, a'i fod wedi achosi mwy o dywallt gwaed nag a wnaeth holl Ymerawdwyr Rhufain a'r byd.

"Credaf mai un peth ydyw amddiffyn y Grefydd Gristianogol, ac mai peth arall ydyw taro dyn ar ei ben am fod o wahanol opiniwn.

"Credaf mai yr hwn sydd yn ofni Duw ac yn gweithredu cyfiawnder sydd gymeradwy ganddo ef, er bod y cyfryw yn gomedd addoli un dyn nac urdd o ddynion yn y fargen.

"Credaf y gall dyn fod yn gristion da heb fod o'r un golygiadau âg un blaid sectyddol.

"Credaf y gall ein ffydd, gogystal a'n cylla, gael ei gorlwytho, yn enwedig os rhwystrir i ni *gnoi* yr hyn a orchymynir i ni *lyncu.*

"Credaf nad ydyw adwythigrwydd rhai offeiriaid yn erbyn fy ngolygiadau yn tarddu oddiar eu serch at Gristnogrwydd, (yr hon sydd wedi ei seilio ar sylfaen rhy

* "I lefaru yn ddiddoedd (medd Dr. Tillotson) peth cyffredin ymhlith rhai penboeth o bob plaid, yw'r *arfer gwaelyd* o ddywedyd celwyddau dros y gwirionedd:"—os gwirionedd, yn hytracn na rhywbeth arall, y maent yn ymhel yn ei gylch, ac yn ei amddiffyn mor drwsgl.

gref i gael ei siglo gan yr ymchwiliad mawyaf manwl, ac yn nwyfoldeb yr hon y cywir gredaf heb dderbyn un ffyrling am lefarn y cyfryw beth). Ond oddiwrth ofn slafaidd y dygir i ddirmyg eu honiadau disul, a'u rhith-hawlau afresymol, y rhai a ddiflanent mewn cryndod gyda'r ymchwiliad gwanaf."

Credaf innau, mai y grefft orau dan haul Lloegr a Chymru i ddyn roddi ei blentyn ynddi, ydyw offeiriad, gan fod y cyndeidau wedi gofalu y cae y cyfryw lenwi ei logell o aur, er y dichon fod ei siol yn wag o synwyr cyffredin.

Credaf fod mwy o olwg gan lawer o honynt ar un swllt o ddegwm nâ llawer o eneidiau pobl y plwyf.

Credaf mai y ffordd rwydda, a'r ffordd mae llawer un wedi gymeryd er codi ei ddegwm ydyw cyflogi cyfreithiwr at y gwaith, rhag y bydd rhai o'r plwyfolion yn gwisgo crwyn *buffaloes*.

Credaf os na faddeu offeiriad *un* geiniog o'i gyfiawn ddegwm i ddeiliad gwan—na faddeua ei Dad nefol ei ddyled yntau er cymmaint ei honiadau. Credaf fod llawer gwir yn well o'i gelu.

CYWREINRWYDD.

Y LLINELLAU canlynol sydd â'r priodoldeb neillduol yma ynddynt. Os darllenwch hwynt i wared yn ddwy rês wahanol mynegant ffydd neu gred un o aelodau Eglwys Loegr; ond os darllenwch hwynt o'r aswy i'r dê, dwy linell yn un, yna gosodant allan gred Pabydd. Dywedir iddynt gael eu cyfansoddi ers blynyddau maith yn ol gan fonheddig oedd yn ymdeithio yn yr Iwerddon, yr hwn pan holid ef o gwmpas ei gred a'i broffes, a ddangosai y llinellau yma; a byddai yn naill ai yn darllen yn groes neu i wared fel y byddai y cwmpeini yn union yn cynwys o Brotestaniaid neu Babistiaid:—

Nis gall Eglwys Crist byth fod
Yn Eglwys Rufain, rwy'n canfod,
Nis medraf byth lyncu
Yr hyn mae'r Pabyddion yn gredu,
Derbynwyd gan yr Apostolion
Y Ffydd a ddeil y goron;
Nid oes ofergoeledd diried
Yn teirnasu ar Brotestaniaid:
Gyda'r Pabyddion a'i pherthnasau
Ni chydsyniaf i wneud drygau

Yn Eglwys Prydain neu Albion,
Mae'r wir Eglwys yn mhlith dynion;
Yr hyn amddiffyna Protestaniaid
Sydd gywir ac uniawngred;
Y Ffydd sydd gan Babyddion,
Nid ffydd yw i fforddolion:
Mewn Pabyddiaeth i'w ganfod
Mae pob milaenwaith a phechod;
Mi gydsyniaf hyd fy angau
Ag Eglwys Loegr a'i erthyglau.

'Lle fferem, llw! Offeiriaid,—(mi unaf
A'm anwyl Undodiaid,)
Pwy mwy'r bost mae'r Pabistiaid
O'r un hil arwlun haid.

—*O'r "Christian Freeman."* JENKIN JENKINS.

Y FFORDD I NYCHU CYNULLEIDFA.

ABSENOLWCH eich hunain oddiwrth yr ordinhadau cyhoeddus pryd bynag ag y byddoch yn cymeryd hyny yn eich pen. Yna dysga craill oddiwrth eich esampl nad yw yn angenrheidiol iddynt hwythau i fod yn gydwybodol iawn ynghylch mynychu addoliad eu Gwneuthurwr. Byddwch sicr o beidio a mentro myned i'r eglwys os bydd y diwrnod dipyn yn oer neu yn gymylog. Dysga hyn craill os ydynt am gadw neu ofalu am eu hiechyd, iddynt i aros gartref. Siaradwch mewn geiriau digalonus am ragolygon y gynulleidfa. Bydd hyny i wneuthur dynion i gadw draw yn ddigon pell; oblegid nid oes yr un dyn am uno âg achos ag sy'n myned i lawr.

Fel y byddoch allnog i siarad fel hyn na chymerwch ond ychydig neu ddim gofal am lwyddiant y gynulleidfa eich hunan. Nid oes genych ddim wedi'n ond dychmygu fod eich bredyr mor oer ac mor llesg a chwythau, ac i fod crefydd mewn cyflwr isel yn wir.

Byddwch ofalus fod eich lle o addoliad yn weddol oer ac anghyssurus. Bydd hyny yn foddion effeithiol i gadw eich côrau yn y fath sefyllfa ag na fydd achos i chwi i droi i maes o honynt oherwydd eu gorlenwi gan ddieithriaid; oblegid ni fydd neb i'w mynychu ond y sawl ag sydd yn feddiannol i raddau ar yspryd merthyrdod.

Gosodwch eich lle o addoliad mewn man anghyfleus, ac nas gellir myned iddo ond trwy lawer o laca. Waith os bydd y bobl yn caru yr ordinhadau ni chadwa hyny hwy i bant.

Pan ofynir am gyfraniad bychan genych i gadw y tŷ-cwrdd rhywbeth yn debyg i'r un cyflwr gweddaidd a chyssurus a'ch tŷ annedd, byddwch ofalus i gwyno a grwgnach am eich bod chwi bob amser i roddi arian. Os ydych yn dlawd, heb fod genych ond rhyw ychydig filoedd o bunau ar lôg, byddai yn afresymol i ddisgwyl i chwi i wneuthur llawer. Edrychedd craill at hyny. Byddwch ofalus i ganu mawl i Dduw fel pe na baech yn gofalu am ganu mwy na pheidio; a bydded eich canu eglwysig y fath ag i ddiflasu pob person o chwaeth.—*Christian Freeman.* E. W. L.

DYBENWN LLE DECHREU'SOM GYNT.

"We begin in what we end."—SHELLEY.

UN hafaidd Sul, un Medi mwyn,
A mi'n dychwelyd ar fy nhro
O'r capel bach ym mlaen y fro,
Gan wrando caingc o lawer llwyn.

Yn rhodio draw o dan y coed,
Henafgwr oedd ar bwys ei ffon,
Ac am ei glun yn plethu'n llon
Ei orwyr bach o deir-blwydd oed.

Y naill oedd fel hynafol bren,
A llawer colfen arno'n grin,
A rhygnau llawer gauaf blin
Yn brawf y nesai 'i oes i ben.

Y llall oedd fel gwïalen ir
Heb weled ond un gwanwyn gwyrdd,
Yn hardd, ond egwan yn ei ffyrdd,
A'i gwraidd heb suddo 'mhell i'r tir.

Mwmialai'r henwr fraich o gân,
A llais toredig, crynllyd cras;—
Rhyw benill barai yn ei flas
Oddiar flynyddau mebyd glân.

A bloesg acenion, yr un bach
Groesholai'n daer ei hen dadcu,
Gan ddyfal dyru geiriau lu
Yn nwyfiant llawn ei galon iach.

Ond prin y sylw gaent yn awr;
Breuddwydiol oedd ei wywlyd wedd,
Ond llawn o ryw aeddfettaf hedd,
Fel un ar ado llwybrau'r llawr.

Gofynais iddo'n ŵyl fy moes
Fel yr arferwn ar bob pryd:
"Pa fath ei helynt yn y byd?
Ai ysgawn ynte trwm ei groes?"

Cyn atteb im' ystyriodd dro,
Ac yna gyda siriol wên
Yn tannu dros ei wyneb hên:
"Yn waeth mi deimlais ganwaith, do.

Yn teimlo gynneu'n flin a thrwm,
Mi grwydrais yma'n araf iawn
Er profi gwres yr haul brydnawn,
A naws yr awel trwy y cwm."

"Beth yw eich oedran, hendad hael?
Yn hen mi wn, ond pa mor hen?
Diflanu wnaeth y serchog wên,
A chysgod du oedd ar ei ael.

Gan fynych daro'r llawr â'i ffon
Wrth geisio galw'r blwyddi i go',
Cyffesodd wedi oedi tro,—
"Nis medraf ddweyd y fynud hon!"

Gofynais i'r un bach dinam,
Ac arnaf trodd ei lygad glas,
A'r unig atteb ddaeth i ma's:—
"Ni wyddai ef—fe wyddai 'i fam!"

Cychwynais inau ar fy hynt,
Gan ado'r hapus ddau ynghyd,
A'r llinell hono ddaeth i 'mryd:—
"Dybenwn lle dechreu'som gynt!" G.

THEODORE PARKER.*

Llythyr II.

Mae rhyw swyn odiaeth ynglŷn â duwioldeb boreuol Theodore Parker. Nid oes galar am lithriadau neu anffyddlondeb diweddarach ychwaith, yn dyfod i mewn i ymgymysgu a'n teimladau o hyfrydwch. Nid oedd y dechreuad ynddo ef ond addewid ac arwydd o'r pethau mawrion i ganlyn. Cawn yr eginyn ynddo paa yn blentyn; cawn ynddo hefyd cyn y diwedd yr ŷd yn llawn yn y dywysen. Fel yr elai ei wybodaeth a'i brofiad ar gynydd, elai ei dduwioldeb yn llawnach ac aeddfetach ar bob cam. Mae yn demtasiwn gref i ni oedi yn hir o gylch ei flynyddoedd boreuol. Gorphwysa arnynt ryw lewyrch teg a thirion, megys o wlad well. Gyda golwg ar yr afael oedd gan grefydd arno o'i febyd i fynu, cawn ef pan yn agos i derfyn ei oes, sef yn 1858, yn dweyd fel hyn:—

"Yr wyf wedi nofio mewn dyfroedd clir a melus fy holl ddyddiau; ac os oeddynt weithiau ychydig yn oer, ac os rhedai y ffrwd yn groes, a hytrach yn arw, nid oedd byth yn rhy gryf i'w gwynebu, ac i nofio drwyddi. Er dyddiau boreuaf mebyd pan yr awn dan dripio trwy'r glaswellt, 'mor llawen â gwenynen mis Mai,' i fynu hyd at ddyndod barfiwyd yr amser presenol, nid oes ddydd nad yw wedi gadael mêl i mi yng nghwch y cof, yr hwn yr ymborthaf arno yn awr er hyfrydwch presenol. Pan adalwaf i'm cof flynyddau mebyd, ieuenctyd, dyndod boreuol, fe'm llenwir a theimlad o felusder ac o syndod y dichon i'r fath bethau bychain wneyd dyn marwol mor rhyfedd o oludog. Ond rhaid i mi gyffesu mai y penaf o'm holl hyfrydwch o hyd yw'r crefyddol. Hwn yw'r isaf i lawr—y mae hwn hefyd yr uwchaf i fynu. Pa hyfrydwch a feddaf yn fy ymwybodaeth o Dduw, y sicrwydd o'i ddyogelwch, o'i gariad anfeidrol! Mae Duw yn fy ngharu mewn modd nas gwnaeth fy mam naturiol erioed, ac nas gall hyd yn oed yn awr gyda gwynfydau ychwanegol deugain mlynedd yn y nef."

Mor fywiog oedd ei deimlad boreuol o gariad tadol Duw! Nid llai effro oedd ei gydwybod i'w geryddu am bob drwg. Ysgrifena fel hyn at gyfaill:

"A wedais i wrthych erioed am y ffaith foreuaf o ymwybodaeth y teimlais boen oddiwrthi? Pan yn cerdded ar fy mhedair, daethai cymydog i fy nhad. Diacon Stearns, i ladd llo. Ni wnai fy nhad y gorchwyl ei hun yr un modd a ffermwyr eraill. Ni chaniateid i mi weled y cigyddiad, ond pan oedd y cyfan drosodd, gofynodd y Diacon, yr hwn oedd wedi claddu ei blant oll, i mi pwy oeddwn yn garu oreu. 'Nhad.' 'Beth, yn well na'ch hunan?' 'Ie, syr.' 'Ond,' meddai nhad, 'pe byddai raid i un o honom gael fflangelliad, pa un o honom fyddai oreu genych i dderbyn y dyrnodiau?' Ni *wedais* ddim, ond synais a synais paham yr oedd yn ddewisach genyf fod iddo ef dderbyn y dyrnodiau na mi. Yr oedd y ffaith yn eglur, ac yn eglur yn hunanol, ac ymddangosai i mi yn ddrygionus. Eto nis gallwn help i'r teimlad. Darfu iddo fy mhoeni am wythnosau yn fy nillad llaesion (*long clothes*)."

Yr oedd ei feddwl yn awchus iawn am wybodaeth, a rhoddodd brofion o hyn yn gynar. Darllenai agos mor foreu ag y siaradai. Arferai glywed a gweled darllen gartref, ac arferid ef i ddarllen ei hun. Yr oedd llyfrgell fach weddol gan ei dad, yn ol amgylchiadau'r teulu, a darllenwr o'r iawn ryw oedd. Ni chai Theodore ddechreu cyfrol arall nes y gallai roi cyfrif boddhaol o'r un fuasai wedi bod yn ddarllen ddiweddaf. Yr oedd ei dad yn aelod o'r llyfrgell yn y pentref cyfagos, a chariai adref bob peth gwerth ei ddarllen. Cyn bod Theodore yn wyth oed yr oedd wedi darllen Homer a Plutarch mewn cyfieithiad, a Rollin's *Ancient History* o gylch yr un amser; ac wmredd o hanesiaeth a chymaint o brydyddiaeth ag a gai afael arno cyn bod yn ddeg. Ymaflodd mewn *metaphysics* pan yn un-ar-ddeg neu ddeuddeg. Dechreuodd gyfansoddi prydyddiaeth pan yn wyth, a gallai adrodd o 500 i 1000 o linellau ar ol eu darllen unwaith, neu unrhyw gân ar ol ei chlywed unwaith. Dysgai'r hymnau wrth waith y gweinidog yn eu rhoi allan, a gwyddai hwynt cyn y dechreuai'r

* *Life and Correspondence of Theodore Parker, Minister of the 28th Congregational Society, Boston. By John Weiss, in 2 vols.* 1863.

bobl ganu. Yr oedd erioed yn hoff o wyddor *(science)* yn ei gwahanol ganghenau. Pan yn ddeg oed gwnaeth gof-restr o'r holl lysiau, planhigion a choedydd ar fferm ei dad. Os na allai dd'od o hyd i enwau, dyfeisiai rai. Wrth ysgrifenu at gyfaill dysgedig, Prof. Desor, dywed:—

"Oddiar y cof cyntaf sy genyf yr wyf wedi bod bob amser a thuedd ynwyf i dynu rheolau cyffredinol ac i ddarganfod deddfau cyffredinol. Cofiwyf am engraiffi pan nad oeddwn ond saith oed. Edrychais dros y *lichens* math o gen neu farf) ar graig, ac ar y mwswm wrth ei ochr, ac ar lwyn'r llus duon bach, ac yna ar y coed cnau ar bwys, a dywedais: Dyma esgyniad rheolaidd—y graig, y *lichen*, y mwswm, y glaswellt, y llwyn a'r goeden; ac fel hyn y mae hi ym mhob man. Es i mewn a gwedais wrth fy mam y darganfyddiad a wneuthum o raddfa pethau, o'r graig i'r goeden."

Yr oedd y fath blentyn â hwn yn yr ysgol erioed. Yr oedd pob man a phob peth yn ysgol iddo. Eto nid rhyw fanteision eurafdd a gafodd, a barnu wrth yr olwg allanol. Yr oedd y cychwyniad a dderbyniodd gartref oddiwrth ei rieni ac eraill o'r teulu yn ddian yn ardderchog, a rhy gostus i allu ei brisio mewn aur ac arian. Dysgasant ef i sylwi ar bob peth oddifewn ac oddiallan iddo ei hun. Eto rhaid i ni restru Parker ym mhlith y rhai a gasglasant wybodaeth ac a gyrhaeddasant enwogrwydd trwy fil o anhawsderau. Gwthio ei ffordd ym mlaen trwy lafur caled a gafodd. Dechreuodd ysgolia pan yn chwech oed. Oni dim ond rhyw gwarter ganaf oedd hi trwy'r blynyddau. Gweithiai gartref ar y fferm y gweddill o'r amser, yn ol arferiad yr ardal. Dim ond Saesneg a ddysgid yn yr ysgolion cymydogaethol. Er hyny pan oedd yn ddeg oed, darfu i'r athraw yn Lexington, Mr. W. H. White, gwenidog parchus wedi hyny gyda'r Undodiaid, ymfoddloni, o bur ewyllys da, oblegyd ei serch at Theodore, a'i olwg uchel am ei alluoedd, i ddysgu Lladin iddo, a Groeg y flwyddyn ganlynol. Wedi cael cychwyn yn yr ieithoedd hyn, ai rhagddo ei hun ar ol i Mr. White ymadael a'r lle. Nid gwaith bychan oedd cael digon o lyfrau iddo. Nid oedd un math o lyfr yn rhy sych na rhy ddyrys iddo ef fyned trwyddo. Yn y siop waith byddai llyfr yn wastad yn agored o'i flaen; ac allan yn y maesydd pan orphwysid ganol dydd, tra byddai eraill yn cysgu neu yn chwarae, ceid ef mewn rhyw gongl a'i lygad glas bywiog yn cyflym redeg dros dudalenau rhyw lyfr. Trysorai bob ceiniog a allai er prynu llyfrau. Yn Boston, maes ei lafur ar ol hyny, y prynodd ei gyfrol gyntaf, â'r arian a gawsai am y llus duon bach y gwnaethai eu casglu a'u dwyn i'r dref hono i'w gwerthu. Y llyfr hwn oedd dechreuad y casgliad goddidog o 11,000 o gyfrolau y rhai yr anrhegodd Boston â hwy yn ei ewyllys ddiweddaf. Oddiar pan yn chwech oed hyd nes oedd yn ddwy ar bymtheg cai fyned i'r ysgol bob ganaf, a dim yn rhagor, oddieithr ryw ddau haf. Pan yn unarbymtheg catodd dri mis yn y Lexington *Academy*. Aeth ym mlaen yma gyda Lladin a Groeg, a dechreuodd *algebra*, gan orphen Colburn's *algebra* mewn ugain diwrnod. Pan yn ddwyarbymtheg dechreuodd gadw ysgol ei hun: y ganaf cyntaf yn Quincy, yr ail yn North Lexington, y trydydd yn Concord, a'r pedwerydd yn Waltham. Y peth a elwir yn America yn *district schools* oedd y rhai hyn. Parhaai i weithio yn y fferm ac yn y siop y gweddill o'r flwyddyn. Yn Waltham dechreuodd ddysgu'r Ffrancaeg, ac ychydig yn ddiweddarach cawn ef yn meistroli'r Hispaenaeg.

Yn Awst, 1830, y dydd cyn pen ei ugeinfed flwydd aethai o gartref, ac ni ddychwelodd hyd yn agos haner nos. Cawsai genad ei dad i fyned o dre am ddiwrnod, ond ni wyddai neb i ba le yr aethai. Pan ddychwelodd aeth i fynu at echwyn gwely ei dad, a gwedodd: "Nhad, mi ymunais heddyw a Choleg Harvard." Treulasai'r holl ddiwrnod i fyned dan arholiad yng Cambridge. "Beth, Theodore, gwyddoch nas gallaf fi eich cynal yno." "Mi wn hyny, nhad; fy mwriad yw aros gartref a chadw i fynu â'm dosparth." Arosodd gartref am anaf arall yn gwnevd ei holl waith, gan gario ym mlaen ei fyfyrdodau a myned i ward i Cambridge i'r arholiadau. Gan nad oedd wedi bod yn fyfyriwr trigianol yn y coleg nis gallasai raddio. Ond darfu iddo yn 1840 gael ei anrhegu a'r radd o M.A gan y brif-ysgol ddywedodig.

Nid yw yn amlwg oddiwrth y byw-graffiad pa un a fynychodd arholiadau'r coleg am ragor na blwyddyn ai pheidio. Y casgliad mwyaf naturiol fyddai iddo wneyd, gan y cawn ef yn nesaf ym Mawrth, 1831, yn gadael tŷ ei dad byth i ddychwelyd mwy ond yn achlysurol, ac yn myned yn gynorthwywr i ysgol breifat yn Boston.

Canodd yn iach i'r hen fferm anwyl ac i gartref lle y mwynhasai eithaf tynerwch am ragor nag ugain mlynedd, gan ei ffyddlawn ddychwelyd yn ol ar bob pryd i dad a mam, brawd a chwaer, a phob aelod o'r teulu; a pharhaodd felly i'w ddychwelyd ar ol iddo ymadael a chartref. Cariodd ymaith gydag ef gorff iachus, calon dyner, parch diledryw at rinwedd a duwioldeb ym mhawb, syched am wybodaeth nad oedd dim a'i torai, a phenderfyniad mor anhawdd i'w luddias ag a fyddai troi ymchwydd yr Atlantic yn ei ol. Crynhodd ynghyd yr ychydig lyfrau a feddai, a darllenai rhagddo yn ddiaros. Yn ystod y flwyddyn hon darlleuwyd ganddo "yr oll o Homer a llawer o Xenophon, Demosthenes ac Aeschylus, ac at hyny llawer o lyfrau ar *metaphysics*. Ychwanegwyd yr Ellmynaeg at y Ffrancaeg a'r Hispaenaeg, a dysgodd ysgrifenu yn gystal a darllen yr ieithoedd hyn." Yr oedd cyn hyn wedi darllen Horace a Virgil oddeutu ugain gwaith drosodd, ac yn cofio y darnau goren o honynt. Cynyddai ei awydd a dyblai ei ymdrech am wybodaeth o hyd. Caled iawn y gweithiai. Dysgai yn yr ysgol am chwech awr yn y dydd, a saith awr o Mai i Medi; ond mynai o ddeg i ddeuddeg awr bob dydd at ei fyfyrdodau prifat pan allan o'r ysgol. Ym mhen blynyddau ar ol hyn dywed: "Mae fy nghnawd yn gwingo wrth feddwl am y modd yr arferwn weithio, a pha gymaint a ddysgais y flwyddyn hon, a'r pedair blynedd ganlynol." Ond rhy galed o lawer y gweithodd er lles ei gyfansoddiad, a gadawodd y llafur gormodol ei ol arno hyd ei fedd. Aberthai iechyd a chwbl yn ddifeddwl ar allor gwybodaeth. Yr oedd dyfroedd gwybodaeth mor felus iddo fel yr anghofiai ofynion y corff. Yno yn ninas fawr boblog Boston ymroddodd i "gynull defnyddiau gogoniant dyfodol," yn unig ac heb gyfaill—"dim ond llyfrau, llyfrau, llyfrau;" ac adnoddau ei galon dyner serch-lawn yn gorwedd yn ddiwaith gan nad oedd yn adnabod neb, nac eto yn adnabyddus i braidd neb. Er mor angerddol oedd ei awydd am wybodaeth, llawn mor ddiwall oedd ei hiraeth am gydymdeimlad a chyfeillgarwch. Dywedai: "Mae arnaf angen am ryw un bob amser i'w gymeryd ym mhreichiau fy nghalon; os na chaf hyn yr wyf yn galaru ac yn wylo." Pan gartref, cawsai fwynhau helaethrwydd o'r serch tyneraf, ac oblegyd hyn teimlai yn fwy llym y diffyg o gyfeillion mynwesol yn awr. Ni fu dyn erioed yn berchen mewn graddau enwocach nag ef, y diffuantrwydd, yr unplygrwydd, yr angerddoldeb teimlad a'r hunan-anghofrwydd hanfodol i gyfeillgarwch gwirioneddol a dwfn. Ond digon unig a digon prudd y teimlodd y gauaf cyntaf hwnw yn Boston.

Er mai ymhlith yr Undodiaid y cawsai ei ddwyn i fynu, eto yn ystod y flwyddyn hon arferai bob Sabbath eistedd dan wemidogaeth y Dr. Lyman Beecher, y gweinidog iawn-ffyddiog gallucaf yn Loegr Newydd ar y pryd. Yn oglwys Dr. Beecher cafodd glywed Calviniaeth ar ei huchelfanau penaf yn cael ei phregethu. Yr oedd ganddo olwg fawr ar dalentau, zel ac yspryd anturiaethus y dyn galluog hwnw, a dysgodd lawer ganddo, ond ymadawodd heb ymddiried yn y byd yn ei dduwinyddiaeth. Darfu i flwyddyn o'i bregethu agos ddybenu yr holl barch oedd ganddo i'r dduwinyddiaeth Galvinaidd.

Pan ddaeth y flwyddyn hon i ben, tueddwyd ef i fyned i Watertown, tref fechan yn agos i Boston, i agor ysgol ei hun. Aeth yno yn Ebrill 1832, heb addewid am un ysgolhaig ac heb ddigon o arian ychwaith i wneyd yr ychydig barotoadau angenrheidiol. Cymerodd ran o dŷ i gadw ysgol yuddo; cynorthwyodd i'w lorio; gwnaeth haner dwsin o ddesgau, a dechreuodd yn fuan gyda dau ysgolhaig, ac un o'r ddau wedi ei gymhell ganddo i ddyfod a derbyn ei addysg yn rhad. Ar fyr daeth bagad ynghyd, digon i'w rhanu yn ddosparth uchaf ac isaf. Cyn diwedd y flwyddyn yr oedd ganddo 34, ac yn fuan ar ol hyn 20 yn rhagor. Cymerai drafferth ddibendraw gyda'r plant. Llywodraethai hwynt yn rhwydd a di-stwr. Ufuddhaent iddo o serch ato. Dugent flodau iddo, a balch iawn oeddynt pan gymerai weithnau ran yn eu chwarae. Credai y gallent wneyd beth bynag a osodai o'u blaen, a thynai yr hyder hwn ynddynt hwynt i ymdrechu heb roi fynu nes llwyddo. Nid oedd a fynai a'r llyfrau arferol ar Dduwinyddiaeth Naturiol. Mabwysiadai ei lwybr ei hun gyda'r ganghen hon, ac arweiniai'r plant i draethu eu teimladau a'u syniadau eu hunain, a chai achos digonol i lawenhau yn llwyddiant y cynllun. Cymerai ddosparth allan i'r maesydd o gylch yn fynych, a dan y gwyddai enwau a phriodoleddau pob blodeuyn a phlanhigyn trwy yr holl wlad, a ffyrdd ac arferion pob aderyn ac anifail, meddai ar gymhwysder a

dawn neillduol i ddwyn y plant i *sylwi* ar bob peth, ac i ymhyfrydu mewn arfer eu sylw.

Un o freintiau penaf y tymhor hwn a'i oes fu yr adnabyddiaeth a'r cyfeillgarwch a ffurfiodd tra yn y lle hwn â'r Dr. Convers Francis, gweinidog yr Undodiaid y pryd hwnw yn Watertown, ac ar ol hyny Proffeswr yn yr Ysgol Dduwinyddol yn Cambridge. Yr oedd Dr. Francis yn un o'r gweinidogion mwyaf parchus, dysgedig, a rhyddfrydig yn holl America; dyn ëang-ysprydd, cynes-galon. Bu ei gymdeithas yn gefnogiad ac yn gyfarwyddid i Parker ar ddechreu ei yrfa gyhoeddus, a help iddo i ffurfio a chario allan lawer o gynlluniau pwysig. Gwnaeth y gwr da hwn ran tad a chyfaill ac athraw iddo; safodd ei dir heb droi ei gefn arno mewn blynyddau dyfodol pan ddaethai Parker "y dyn a gasheid fwyaf yn holl America." Yr oedd yn ysgolhaig rhagorol yn y Lladin, y Groeg, a'r Hebraeg, ac yn un o'r rhai cyntaf a medrusaf yn America a droes ei sylw at gynyrchion gallnog duwinyddion yr Almaen. Pregethwr o'r iawn ddelw oedd hefyd, a duwinydd *dynol*, nid caled, cul, cyndyn, ac anoddefgar. Nid ofnai anog ei ddysgybl ieuanc i chwilio, ac ni roddai ar ddeall iddo, yr un pryd ag yr anogai ef i chwilio, y dysgwyliai iddo ddyfod i farnu am bawb a phob peth yr un ffunud ag ef ei hun. Ni wrychai pan ofynai Parker ambell i ofyniad allan o'r cyffredin. Ymofynydd oedd ei hun. Nid oedd wedi codi rhyw furiau uchel amldyrog o amgylch ei gredo, nac wedi bolltio'r pyrth fel na fuasai gwiw i ryw wybodaeth well neu ddarganfyddiad newydd guro am dderbyniad. Yr oedd pob peth yma yn ffafriol i gryfhau gogwyddiad boreuol Parker at y weinidogaeth.

Gwnaed ef yn fuan yn arolygydd yn yr Ysgol Sabbathol. Digon ofnus ac yswil oedd ar y dechreu; llwyd o wedd ac o wisg; ond pan ddechreuai siarad yn ei ddull duwiol a mwynaidd, llawenychai calonau pawb wrth wrando arno. Cymerodd ofal dosparth yn yr Hen Destament, a'i ffordd oedd holi gofyniadau mewn trefn i ddwyn ei ddysgyblion i weled pa beth oedd yn aros i gael ei ddysgu ganddynt. Darllenai ranau allan, gan eu hanog i ddefnyddio eu synwyr cyffredin.

Bu farw Mr. Broad, gwr y tŷ lle y llettyai ac y cadwai ei ysgol; ac yr oedd Parker mor dyner ac mor barod i helpu fel y daeth i fod o werth a chysur mawr i'w weddw. Arosai bagad o'i ysgolheigion yn y tŷ gydag ef, ac arolygai eu harferion a'u hymddygiadau. Eisteddai i fynu yn hwyr—nid oedd byth ddafn o olew yn ei lamp yn y bore. Yr oedd ar ei draed gyda'r dydd, yn llifo ac yn hollti coed ar gyfer yr ysgol a'r teulu, yn ysgubo ac yn diluwcho yr ysgoldy, heblaw cymeryd taith o dair neu bedair milldir.

Parhaodd hyn am ddwy flynedd. Elai i Cambridge ddwywaith yr wythnos i gael gwersi yn yr Hebraeg gan Mr. Thurston, un o fyfyrwyr yr Ysgol Dduwinyddol; wedi hyn teithiai mor bell a Charlestown i gael ei hyfforddi yn yr un iaith gan Iuddew o'r enw Mr. Seixas. Llenyddiaeth Groeg a Rhufain, *Metaphysics*, yr Almaen, *Political Economy*, *Mathematics*, a Duwinyddiaeth, Hebraeg, a thipyn o Syriaeg—dyna'r pethau a sychent bob dafn o olew yn ei lamp hwyr ar ol hwyr.

Gwedir "fod ysgerbwd neu gorff y farwolaeth yn mhob tŷ." Dichon fod. Ond mor wir mae angel goleuni yn mhob tŷ hefyd. Yr angel yn y tŷ lle y lletyai Parker oedd dynes ieuanc, lân, rinweddol, gall a duwiol o'r enw Miss Lydia D. Cabot. Byrddai yn y tŷ; yr oedd hefyd yn athrawes yn yr un ysgol Sabbathol. Tyr rhyw oleuni newydd ar fywyd Parker y pryd hwn. Ymddengys nad oedd yn claddu ei hun yn fyw yn ei lyfrau bellach. Yr oedd rhyw siriolded newydd yn ei wedd; rhyw ystwythder newydd yn ei gam. Nid wrtho ei hun y cymerai ei *walks* yn awr, ac estynid hwy am fwy o oriau na chynt. Arferasai ddwyn baich o flodau yn ol ganddo o'i bererindodau gan ei fod yn hoff o Lysieuaeth, ond byth ni welid mo hwynt yn awr: cai rhywun bob blodeuyn a gasglai. Eisteddid aml i getyn gan ryw ddau dan dderi hynafol nid pell o'r dref, ac oedid llawer awr mewn cilfachau tlysion ar lânau yr afon Charles. Ond nid oedd olew Mrs. Broad yn 'nawsnes i gael ei arbed, oblegyd yr oedd yn rhaid gwneyd i fynu yn y nos am yr holl goll amser hyn. Fe ddeall y cyfarwydd fod Parker mewn cariad; yr oedd rhyw un arall hefyd wedi syrthio i freichiau yr un demtasiwn. Wele ei lythyr cyntaf i'w wraig (ar ol hyny) yn union wedi iddynt ymgyfamodi a'u gilydd:—

Watertown, Hyd. 30, 1833.

"Es i dŷ fy nhad; dychwelodd yn fuan o'r eglwys; daliais ef yn yr ardd a hyspysais ef o'r mater 'enbyd,' os felly y mynwch ei alw.

"Fe saethodd y deigryn o ddifrif i'w lygad oedranus. 'Yn wir!' ebe fe. 'Yn wir,' ebe finau, a cheisiais ddesgrifio rhai o'ch rhinweddau iddo. 'Mae yn amser maith i aros,' oedd y sylw a wnaeth. 'Ydyw, ond yr ydym yn ieuainc, ac yr wyf yn hyderu fod genyf eich cymeradwyaeth.' 'Ydyw, ydyw; byddaf fi yn foddlawn i bwy bynag a ddewisoch chwi; ond, Theodore,' ebe fe, a suddodd y geirian yn ddwfn i fy nghalon, 'rhaid i chwi fod yn *ddyn* da ac yn *wr* da, yr hyn sydd anturiaeth fawr.' Addawais bob ffyddlondeb, a boed i'r Nef weled yr addewid yn cael ei chadw!"

Yr oedd yn "amser maith i aros," oblegyd ni chymerodd y briodas le hyd yn Ebrill, 1837. Ond amgeledd gymhwys iawn a fu Miss Cabot iddo hyd derfyn ei oes.

Yr oedd erbyn hyn wedi penderfynu pa alwedigaeth i'w dilyn. Yn wir y rhwystrau ar ei ffordd, ac nid diffyg tuedd ynddo ei hun oedd wedi bod yn ei gadw ar brydiau mewn petrusder. Oblegyd cawn ef yn agos i ddiwedd ei oes yn ysgrifenu: "Yn fy mebyd bore mi *deimlwn* mai gwemidog oeddwn i fod, ac edrychwn ym mlaen gyda hiraeth awchus at y gwaith ag yr wyf o hyd o'r farn fod fy natur ei hun yn "alwad effeithiol" iddo, yn ddiau yn alwad ddwfn a pharhaus." Felly ar ol bod yn Watertown am ddwy flynedd cyfrifai fod ganddo ddigon o arian i anturio i'r Ysgol Dduwinyddol yn Cambridge, lle y gallai dyn ieuanc cynil fyw ar 200 dollars (£45) y flwyddyn. Bwriai y gallai estyn ei fodd trwy ddysgu, ac efallai trwy ysgrifenu.

Gwaith caled fu ymadael a'i hen ysgolheigion iddo. Yr oeddynt yn hoff dros ben o hono, ac anrhegasant ef â chwpan arian. Yn ystod y ddwy flynedd hyn darllenodd Tacitus, Cicero, Herodotus, a Thucydides, a chyfieithiodd Pindar a Theocritus, Bion a Moschus, ac hefyd Aeschylus. Daeth o hyd i Cousin, a'r ysgol newydd o athronwyr Ffrengig, ynghyd â Coleridge. Astudiodd hefyd lenyddiaeth cyniter o'r ieithoedd newyddion ag a wyddai, gan wneyd cynydd mawr mewn *Metaphysics* a Duwinyddiaeth.

WILLIAM THOMAS.

EFFEITHIAU YMARFERIAD.

WRTH Ymarferiad y deallir unrhyw beth a fyddo dyn wedi ei aml gyflawni, a'r hyn trwy barhau ei fynychu sy'n dyfod yn hawdd a chynnefin ac megys yn ail-natur, nes yn y diwedd y byddo wedi enill iddo anrhydedd neu enw da wrth wneuthur daioni; neu o'r tu arall tynu dinystr arno a gwarth a thrueni wrth gyflawni drwg. Y mae dyn ar ei ymddangosiad cyntaf i'r byd, yn llwyr ymddifad o unrhyw wybodaeth am un peth yn fwy na'i gilydd; ni ŵyr am oleuni, mai goleuni yw, na thywyllwch chwaith, hyd nes y byddo wedi teimlo wrth fyned yn y blaen, a chael ei dywys ar hyd llwybr dynoliaeth, trwy ei addysgu gyda gofal a thiriondeb mawr gan rywun heblaw ei hunan. Beth pe byddai i'r creadur o ddyn gael ei ollwng pan ei ganed (pe hyny yn bosibl hefyd) i'r goedwig neu ryw fan unigol arall? Ni fyddai fymryn gwell nag anifail gwyllt, yr hwn sydd yn byw ar wellt y maes: ni fyddai ond cripian neu gerdded ar ei draed a'i ddwylaw, yr un fath a'r creaduriaid direswm, ac yn ymborthi ar lysiau a glaswellt y ddaear, heb wybod fod ynddo un gwahaniaeth oddiwrth y creadur afresymol, ac heb deimlo na gwybod dim mai creadur o ddyn ydyw, wedi ei grëu ar lun ac ar ddelw ei Greawdwr, ac ei fod yn gyfrifol am yr hyn oll a wnelo. Mae hanesion i'w cael am rai wedi bod felly yn byw bywyd anifeilaidd; megys y bachgen hwnw a gafwyd mewn coedwig yn Ffrainge yn y flwyddyn 1828, yr hwn a fernid oedd oddeutu pedair blwydd ar ddeg oed; ni fedrai lefaru gair, na cherdded yn debyg i ddyn, a mwy hoff oedd ganddo ymborthi ar ffrwythau'r coedydd na'r danteithion mwyaf blasus a osodid o'i flaen. Felly y gwelwn yn eglur mai rwy ymarferiad parhaus, gydag addysg briodol, mae caffael gwybodaeth

unrhyw beth; ac mor sicr â hyny bydd yr un effeithiau neu ganlyniadau yn sicr o ganlyn yr un achosion bob amser.

Nidyw yn resymol, nac yn naturiol ychwaith, i'r tad neu'r fam i ddisgwyl i'w plant i lefaru un gair o honynt eu hunain, neu i gydio mewn offeryn yn y ffordd briodol i gyflawni un gorchwyl o waith. Na, mae yn rhaid dangos y ffordd i'r plant, a'u dysgu mai trwy ymarferiad a diwydrwydd, a chyda gofal mawr mae dysgu fod yn feistrolgar mewn unrhyw gelfyddyd, neu i fod yn hyddysg mewn unryw gangen o wyddor pa bynag. Ac yn wir diffyg ymarferiad ym mhenau teuluoedd yw, na baent yn addysgu eu plant i siarad yn groyw, ac ymarfer â iaith briodol wrth eu dwyn i fynu, i fod yn wrthrychau teilwng yn y gymdeithas ddynol; ond yn lle hyny ceir eu clywed yn rhy aml yn arfer geiriau pan mewn cyfrinach â hwynt ag nad yw yn perthyn i un iaith yn y byd braidd, a hyny er gwarth a chywilydd i'r rhieni hyny. Canfyddir yr effeithiau o hyn yn amlwg, yn enwedigol o gylch y gweithfeydd haiarn a glo. Pan fyddo dynion yn siarad â'u gilydd mewn cwmpeini, arferant y iaith fwyaf fasweddol wrth amlygu eu meddyliau, ac yn llysenwi naill y llall fel pe baent yr anwariaid gwaethaf heb ddysgu dim erioed; a hyn wedi tarddu (i'm tyb i) o ddiffyg ymarfer â iaith ac addysg briodol ym morau oes dyn.

Eto yr aelwyd yw y man mwyaf priodol (gyda llaeth y fron megys) i argraphu ar feddyliau y plant y pethau hyny a berthynant i'w hymddygiadau yn y byd, ac i'w dysgu i gydnabod eu rhwymedigaeth i Dduw fel eu Creawdwr, a'u dyledswyddau tuag at eu cymydogion, ynghyd âg ufudd-dod o'r puraf i'w rhieni; ond heblaw hyny, y mae ymarferiadau eraill (heblaw a soniasom yn barod) gan rieni wrth addysgu eu plant sydd a'u canlyniadau yn anocheladwy yn dwyn gwarthrudd ar eu penau, a'r effeithiau yn rhy amlwg i'w gwadu. I ba beth y gellir priodoli yr anonestrwydd sydd yn y byd gan ddynion wrth fasnachu a'u gilydd; yn lle bod dynion yn talu yr hyn sydd ddyledus y naill i'r llall, gwelir bod twyll, hoced ac anonestrwydd yn cael y lle blaenaf, gan lwyr anghofio y reol auraidd hono—"Gwnewch i eraill fel yr ewyllysioch i eraill wneuthur i chwithau." Târdda hyn i raddau pell iawn oddiwrth fod rhieni plant yn peidio a'u harwain ar hyd llwybrau gonestrwydd ac uniondeb, a'u dysgu beth yw talu i bob un ei eiddo. Ond yn lle hyny gadewir i'r plant i ddwyn teganau eu gilydd pan fyddont yn rhai bach, heb ystyried naws yr effeithiau anwadadwy sydd yn glynu wrth arferiadau o'r fath; ac heb ddangos y niwed o bonynt, pa fodd mae disgwyl i'r plant i wybod beth i'w gwerth onestrwydd a chyfiawnder dan bob amgylchiad? Y mae'r canlyniadau yn niweidiol dros ben, a'r ffrwyth yn tarddu i beri dyryswch meddwl yn ol llaw, a gofid calon, am na buasent wedi dysgu eu plant i ochelyd arferiadau drygionus, a rhoddi cyfarwyddiadau o'u blaen nes eu dwyn i wybod beth i'w gwerth egwyddorion da.

Eto, ymarferiad drwg arall a deilynga ein sylw, sydd gan rhieni wrth addysgu eu plant ag sydd a'i effaith yn ddinystriol dros ben; yw, peidio a'u dysgu i ddweyd y gwir bob amser, yn enwedigol ar yr aelwyd pan fyddont yn rhai bach, mewn chwarcuyddiaeth digrifol a'u gilydd. Arferiad gyffredin iawn gan y fam yw dweyd wrth y plentyn,—"Paid ti a dweyd wrth dy dad heno pan ddelo tua thre, b'le ini wedi bod heddyw, ac am y deisen sydd geni heb yn wybod iddo fe." O'r gore mam (ac yn gweled a chlywed y cyfan yn cymeryd lle) beth y gai am hyny mam?" "O, di gei di ddimeu gan dy fam, a chei di beth pert gan dy fy fam hefyd." Y plentyn yn falch iawn yn

ddiameu o glywed y cai ddimeu a'r peth pert am wneyd yn ol cynghor ei fam; ond pan ddel ei dad a'ref, ni all y plentyn ymatal yn ei serch tuag at ei dad heb adrodd ei helynt, bob peth a glywodd ac a welodd trwy y dydd, heb gelu dim; adrodda reffynau o gelwyddau yn ol cynghor ei fam, heb ystyried dim o'r canlyniadau niweidiol. Beth yw'r effaith o hyn ar y plentyn, ond ei arwain i ddywedyd anwiredd with ei dad a'i fam yn gyntaf, a'u gymydogion yn ei ymyl; a phan ei cerydder am hyn, diameu y tröa yn ol a chyfeiria yr ymadrodd at ei rieni, mai hwy a'i dysgodd ef i ddywedyd felly, dan grynu rhag ofn y wialen; a chyn y byddo iddynt i geryddu am hyn, cymwys fyddai iddynt gofio y geiriau—"Y meddyg, iacha dy hun." Dylai rhieni plant fod ar eu gwyliadwriaeth, ac i gymeryd gofal mawr i ddywedyd y gwir bob amser wrthynt, a'u iawn hyffordi yn llwybr eu dyledswyddau, gan gofio ymadrodd yr Apostol,—"A chwithau, dadau, na yrwch eich plant i ddigio, ond maethwch hwynt yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd."

Peth arall eto a deilynga ein sylw yw yr ymarferiad ffiaidd ac annynol sydd gan rieni wrth ddwyn eu plant i fynu, sef dweyd wrth y plentyn pan wedi cael ei siomi gan ei gyd-chwareuydd, neu gwympo ar draws rhywbeth nes peri dolur iddo, a thrwy hyny achosi iddo lefain; heb ystyried pa fodd y bu, rhoddant anogaeth iddo ddial ar ei elyn yn uniongyrchol, trwy ddweyd wrtho,—"Cerdda, rho *gick* iddo, cwyd dy ddwrn bach a tharo fe," neu ymadrodd cyffelyb; ac os bydd y plentyn yn analluog i hyny, dangosant iddo pa fodd mae gwneud; a phan fyddo y plant wedi tyfu i fynu yn ddynion, a'u dysgu yn ol yr arferiad hyn, beth yw'r effeithiau neu'r ganlyniadau sydd yn debyg o gymeryd lle? Myned i'r maes ac i ben y twyni i ddangos eu gwrhydri trwy ymladd fel creaduriaid rheibus, nes dwyn bywyd naill y llall lawer pryd, a hyny, fel mae gwaethaf y modd, ar ddydd yr Arglwydd. O! gywilydd rhieni plant! dylent ddysgu iddynt bethau gwell na hyn, a dangos atgasrwydd yr arferiad ffiaidd gyda chas perffaith, a'u hyfforddi mewn cariad a chyfeillgarwch at eu gilydd; ac yna bydd lle i obeithio y dertydd ymladdfeydd, ymrysonau, a thywallt gwaed o bob math, ac y deuir i weled gwerth heddwch, a chariad Crist'nogol yn llewyrchu yn barhaus.

Ymarferiad arall sydd mewn bri mawr y dyddiau presenol gan rieni yn ei osod o flaen eu plant ag sydd yn niweidiol i'r eithaf, ac yn galw am ddiwygiad, ac yn gwbl angenrheidiol gwrthdystio yn ei erbyn, sef, myned a'u plant gyda hwy yn rhai bach i arfer yfed y diodydd meddwol, ac yn torri ar reolau cymedroldeb a sobrwydd, trwy ymroi i ormodedd blys ac annigonoldeb; a'r canlyniad yw gosod esiampl o'u blaen ag sydd yn ddrws agored i gyflawni ysgelerdra o'r fath waethaf; ac fel mae gwaethaf y modd, ac yn druenus i feddwl, yn foddion i filoedd o'n cydgreaduriaid ddinystrio eu amgylchiadau eu hunain, a cholli eu bywydau yn anamserol. Dylai dynion, yn enwedigol rhieni plant, fod ar eu gwyliadwriaeth rhag y plâ dinystriol hwn, a gofalu

"Rhag ffol, anfuddiol feddwi,—neu eto
Lymeitian mewn cwmni,
Y mae gras i ymgroesi
I'w rad gael yn hael i ni."

Heblaw hyn eto, gallem nodi llawer o ymarferiadau eraill gan rieni wrth ddwyu eu plant i fynu ag sydd yn gwbl groes i bob peth a dueddo i lesoli dyn, a'i ddyrchafu fel bod resymol; ym mysg eraill, megis tyngu a rhegu

lle y clywo y plant, a pheth sydd waeth fyth, galw ar enw Duw yn ofer, ac yn dyst i'r hyn a ddywedont, er mwyn argraphu ar eu meddyliau eu bod yn dywedyd y gwir. Beth yw yr effeithiau o hyn? Iselhau eu hunain fel bodau rhesymol, difrio eu cymeriadau, ac ymddifadu eu hunain o fod yn aelodau cymwys mewn cymdeithas, thori ar y gorchymyn sanctaidd hwnw a roddwyd gan y deddf-roddwr ar fynydd Sinai gynt, "Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer, canys nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymero ei enw Ef yn ofer."

(I'w orphen yn ein nesaf.)

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y Senedd a'r Wladwriaeth.—Rhaid ymfoddloni, y tro hyn etto, ar ond cyfeirio braidd at rai o weithrediadau mwyaf pwysig y Senedd, pa rai modd bynag nid ydynt wedi passio eu prawf; megys y cynnyg i symmud y rhwystrau sydd ar ffordd anghydffurfwyr i gael mwynhau rhagorfreiniau Prif-athrofa Rhydychain, yr hyn nid yw yn debyg o gael passio yr eisteddiad presennol, ac yn enwedig y cynnygiad pwysig hwnw o eiddo Mr. Gladstone ag sydd wedi tynu cymaint o sylw Tŷ y Cyffredin a'r wlad: sef, trefn er galluogi y bobl weithgar—trwy dalu symau bychain i'r Llythyrdŷ, fel y gallont—i ddiogelu modd at eu cynnaliaeth mewn henaint ac afiechyd, a hyny ar sicrwydd llywodraeth y tir, heb orfod ymddibynu ar y clybau a'r cymdeithasau cyffredin, y rhai ydynt wedi achosi cymaint o siomedigaeth a cholled. Bydd y cwestiwn yn ddiau i gael ei ddwyn ymlaen etto, er mwyn cael mwy manwl a chyflawn ystyriaeth ar fyr iawn. Yn fuan ar ol y Gwyliau hefyd dygir y *Budget* ger bron, pan y cawn wybod y drefn a gynnygia Mr. Gladstone ar drethi y wlad am y flwyddyn ddyfodol, a'i amcan-gyfrif o'r cynnyrch; ar ba achlysur disgwylir y bydd i'r blaid wrthwynebol ymdrechu disodli y Weinyddiaeth—gyda golwg ar gael awenau y llywodraeth bellach i'w dwylaw eu hunain.

Dadganiad Rhydychain.—Y mae offeiriaid yr Eglwys Sefydledig, y dyddiau hyn, mewn penbleth dirfawr; ac nid rhyfedd, gan gymaint y siomedigaeth a'r tramgwydd a gawsant trwy rhyddhâd Dr. Williams a Mr. Wilson a dedfryd y Cyfrin-gyngor. Ant mor bell a gwingaw yn erbyn awdurdod y llŷs uchaf, neu o leiaf gwnant bob ymdrech i wrthweithio dylanwad y ddedfryd a gyhoeddwyd. I'r dyben hyn gwnaethpwyd cynghrair rhwng plaid y Dr. Pusey a phlaid y *Record*, a chyttunwyd gan chwech neu saith o honynt yn Rhydychain, ar Ddadganiad ag oedd i gael ei law-nodi gan bob offeiriad yn y deyrnas—eu bod yn difrifol gredu fod y pwngc o *gyflawn ysprydoliaeth y Beibl* a'r athrawiaeth o *gospedigaeth ddiddiwedd* yn gynnwysedig yn yr Erthyglau Cred. Barnasai Arglwyddi y Cyfrin-gyngor *nad ydynt*. Dywedir fod tua 12,000 eisioes wedi llawnodi y Dadganiad. Ond ymddengys fod llawer iawn o glerigwyr wedi gwrthod llawnodi. Mae rhai yn gwrthod am eu bod yn cymmeradwyo defryd Barnwyr y Cyfringyngor, ac eraill am ei fod yn cael ei ddwyn yn mlaen mewn dull annheg—dull ag sydd yn ymylu ar orfodaeth, gan yr hysbysir i'r clerigwyr yr anfonir rhestr o'r holl enwau a roddir wrth y Dadganiad i bob un o archesgobion ac esgobion Lloegr a'r Iwerddon. Y mae Deon Llandaf ac ereill yn gwrthod ei lawnodi, "nid oddi ar un cydymdeimlad ag opiniynau Dr. R. Williams na Mr. Wilson, ond yn unig am nad ydynt yn barnu y dylai unrhyw saith o bersonau, pa mor barchus bynag y byddont, ofyn i'w brodyr, lawnodi dadganiad newyd a diawdurdod."

Y Cyfandir.—Mae darpariadau rhyfelawl ar radd helaeth, ond yn ddistaw, yn myned ymlaen mewn amryw o deyrnasoedd y Cyfandir. Ac oddieithr y bydd i'r *Conference* ag sydd ar gymmeryd lle yn achos Germany a Denmarc i lwyddo i osod terfyn ar y rhyfel anghyfiawn a diachos rhyngddynt ni bydd yn bosibl braidd i ochelyd rhyfel cyffredinol.

America.—Ni chaniateir lle i ni yn awr i adrodd effeithiau y cynnygiadau a'r

mân frwydau sydd eisioes wedi cymmeryd lle. Mae'n amlwg, oddiwrth y darpariadau a wneir o'r ddau tu, y gellir disgwyl newyddion o bwys yn ystod y mis nesaf.

MEXICO.—Mae yr Ymherawdwr newydd, yr Archddug Maximiliam, ar gymmeryd ei daith i Mexico. Dywed y *Globe* ei fod ef wedi dyfod i'r penderfyniad o fabwysiadu gwladlywiaeth hollol anmhleidiol tuag at Daleithiau Cynghreiriol America. Ond y mae yn dra ammheus a gydnabyddir ymherodraeth newydd Mexico gan y Gogledd o gwbl. Sylwa y *Morning Herald* y bydd holl lafur a thraul Ffraingc yn Mexico yn sicr o fod yn ofer oddieithr i'r Ymherawdwr Napoleon a'r Archddug Maximiliam gydnabod y De.

Bu Farw—

Tachwedd 18, 1863, John Morgan Jones, mab David Jones, ac wyr John Jones (Shon y gwehydd), yn flwydd a saith mis.

Yr 28ain o'r un mis, bu farw, ar ol cystudd byr ond chwerw iawn, John Jones, (Shôn y gwehydd,) yn 61 mlwydd oed. Claddwyd ef yn monwent yr Hen-dŷ-cwrdd, Cefncoed-y-cymmer, pryd y pregethodd y gweinidog ar yr achlysur i dyrfa fawr ac astud iawn. Bu y trengedig yn aelod yn yr Hen-dŷ-cwrdd am flynyddau lawer, yr oedd yn aelod pan ddaeth y gweinidog presenol gyntaf i'r lle, dros 26 mlynedd yn ol. Yr oedd yr ymadawedig yn Undodwr selog a deallus, a pharhaodd felly hyd awr ei ymadawiad. Ychydig ddyddiau cyn ei ymadawiad ymwelodd yr ysgrifenydd ag ef, pan y dywedodd y claf wrtho, "Carwn yn fawr glywed eich llais unwaith etto tra ar y ddaear hon, ychydig eiriau, gan na wn pa bryd y daw'r fit." Yna aeth yr ysgrifenydd i weddi, yn yr hon yr oedd Shôn, druan, yn uno o galon. Wrth ffarwelio dywedodd, "Os na chawn gyfarfod mwy ar y ddaear hon, cawn gyfarfod etto, cawn, mae hyn yn sicr, a chyfarfod hyfryd fydd hwnw 'pan gawn gwrdd oddeutu'r bwrdd, heb byth ymadael mwy.'" A thyna'r geiriau diweddaf a glywodd yr ysgrifenydd o'i enau.

Boreu dydd Llun, y 29ain o Chwefror, yn 12, John Street, Caerfyrddin, ar ol byr gystudd, y Parch. TITUS EVANS, gweinidog yr Onnenfawr ger Llandilo, a Rhydypark ger Llanboidy, ac athraw yr ysgol yn Park-y-Velvet, Caerfyrddin. Pan glywsom am ei afiechyd annisgwyliadwy ychydig feddyliem fod un arall o'r llafurwyr selog a ffyddlon ar gael ei symmud o'r winllan. Ond felly y rhyngodd bodd i Ragluniaeth Ddwyfol. Cymmerwyd ein cyfaill ymaith—heb ond ychydig rybudd—yn nghanol ei waith a'i ddefnyddioldeb; er galar a cholled mawr i'w weddw a'i blant—o golli priod tyner a thad tirion a gofalus. Yn ei gylch cyhoeddus hefyd gwelir eisiau yr ymadawedig mewn llawer ffordd—ac yn enwedig yn y cynulleidfaoedd oeddent dan ei ofal gweinidogaethol. Dan yr amgylchiadau tywyll presennol y mae yn anhawdd gweled pa ffordd i lanw lleoedd y gweinidogion ydynt yn ddiweddar, un ar ol y llall, wedi cael eu symmud o'n plith. Ond serch y digalondid a'r golled amserol, y mae etto bob lle i obeithio y cyfeir dir i fynu ddynion ieuainge cymhwys a gobeithiol, i gymmeryd at leoedd a llafur y rhai ydynt o bryd i bryd yn cael eu symmud o'r winllan. Ac y mae yn ddiau genym nas gwelir yn ormod gan y rhai ydynt yn taerddymuno llwyddiant y gangen fechan sydd yn ddiweddar wedi cael ei hymddifadu gymaint—i gyfranu, fel y byddo galwad, tuag at y draul.

Perchid Mr. Evans yn fawr gan y sawl a'i hadwaenent yn dda, fel Cristion syml a chydwybodol, cymmydog tawel a chymwynasgar, cyfaill serchog a chydweithiwr selog a ffyddlon.

Claddwyd ef y dydd Gwener canlynol yn *Cemetery* Tref Caerfyrddin. Heblaw lluaws o drigolion parchus y dref a'r gymydogaeth yr oedd yn bresennol nifer mawr o weinidogion o wahanol enwadau, a rhai wedi dyfod o bell. Dangosir parch i goffadwriaeth Mr. Evans etto mewn llawer ffordd. Ein swydd alarus ni yn bresennol yw cofnodi ei farwolaeth. I.

Mawrth 1, yn y Notais, yn 72 mlwydd oed, Jennet Jones. Yr oedd yr ymadawedig, fel amryw ereill o'r teulu, wedi dwyn perthynas a'r achos yn y Notais am hir amser. Ac ar ddydd ei chladdedigaeth, cyn cychwyn tuag eglwys y plwyf, cymerwyd y corph i'r tŷ cwrdd, pan y pregethodd gweinidog y lle ar yr achlysur i gynulleidfa luosog a syml, oddiwrth Esay 42, 23.

Dydd Mercher, y 9fed o Fawrth, yn Cwmaman, Aberdar, o'r darfodedigaeth, yn 44 mlwydd oed, William Lewis, gynt o'r Maesmawr, Cwmnedd. Ar ddydd ei gladdedigaeth, y Sadwrn canlynol, pregethodd y Parch. R. J. Jones, Aberdar, ar yr achlysur, i dyrfa luosog Pan yn ddyn ieuange yr oedd yr ymadawedig yn selog iawn dros egwyddorion a sefydliadau Undodaidd: darllenai a siaradai lawer ar y pyngciau mewn dadl. Bu yn selog iawn hefyd gyda sefydlu yr YMOFYNYDD. Ysgrifenai weithiau dan yr enw *Wil Amherffaith.*

Barddoniaeth.

LLINELLAU

ar farwolaeth y Parch. John Jones, ddiweddar weinidog yr Hen-dŷ-cwrdd, Aberdar, Morganwg, yr hwn a fu farw ar ddiwedd y flwyddyn ddiweddaf.

Ow! Ow! roddi'r pregethwr mawreddol
Yma i orwedd mewn carchar marwol;
Taranau dinystr, trueni dynol,
A foldiai'n hyfion fwledau nefol;
Ac ar y maes safai'n gawr grymusol
O blaid crefydd mewn ffydd anniffoddol;
A hynod awydd ei enaid duwiol
Oedd sôn am wyrthiau'r Angau Cyfryngol.
Gwel'd annedd y bugail doniol—medrus,
Fydd ofidus i'r ganrif ddyfodol.

CAWR AYRON.

Y CARDOTYN AMDDIFAD.

CRWYDRYN ydwyf ac amddifad,
Heb un cartref is y nen;
Ac mae'm gwisg yn wael a charpiog,
Heb un màn i roi fy mhen.
Collais riaint pan yn ieuanc,
Fuont gynt yn anwyl im',
Gan fy magu mewn pob llawnder,
Braidd na welais eisiau dim.

Ond yn awr ni feddaf undyn—
Yma ar y ddaear las—
Imi'n gyfaill o ymddiried,
Ond caf lid gelynion cas:
'Rwyf fel llestr rhwng y tònau,
Caf fy nghuro o bob tu,
A fy chwythu gan gorwyntoedd
Heb un llyw ar donau'r lli'.

Mae fy nghorff fel hyn yn egwan,
Ac mae gwedd fy wyneb llwyd,
Iechyd gwael, a llais gwan, cruglyd,
Oll yn dweyd fod eisiau bwyd;
Pan gofynaf am elusen
O flaen drysau fy nghydryw,
Ar fy ol gwnant bob ystumiau,
Nes rhoi i mi loes a briw.

Mae y byd yn gwgu arnaf,
Ac mae'n dywyll ar bob llaw;
Ni chaf neb i ddweyd fy nghwynion—
Pawb fel cysgod gilia draw;
Nid oes fan i droi fy wyneb,
Nac un tamaid dora'm chwant,
Nac un màn i gael ymorphwys
Ond cysgodle clawdd y nant.

Och! mae'r bywyd hwn yn boenus,
A pha beth ddaw o'm enaid i?
Rhaid cael ymborth iddo yntau,
Ond pwy wrendy ar fy nghri?
Gwaeddaf "Fyd, oes gen't ti rywbeth
I ddiwallu f'enaid tlawd?"
Ust!—mae'n ddistaw, ni rydd ateb,
O'i ran ef ni chaf 'r un ffawd.

D'wedai mam, pan oeddwn blentyn,
Fod rhyw un a'i ofal am
Yr amddifad trist, newynog,
Ac na chawswn unrhyw gam;
Ond im' guro—byddai'n agor,
Ond i'm ofyn—gwnelai roi;
Hefyd dangos noddfa imi,
Tuag yno gall'swn ffoi.

Ust! pa beth yw'r llais a glywaf?
Y mae'n galw arnaf fi;
Dywed ef mai lle'r amddifad,
Trist, newynog yw ei dŷ;
Mi anturiaf doed a ddelo,
Iesu Grist sydd imi'n frawd,
Duw yn dad, a thrwy ei ysbryd,
Rhydd im' dyner galon gnawd.

Aberdar DEWI ERMIG.

CYFARCHIAD IDD Y GOG.

DYDD da fo i'r Gog serchoglef,
Aderyn wyd o dir nef;
Yn dwyn newyddion yn deg,
A nodau haf iawn adeg;
A haf yn hudaw hoewfun
I good, a bardd gyda bun:
A llenwi dail i'm llanerch,
A thwg ar ias amlwg serch.
Hoff genyf dy gan landeg
Yn gàn i serch fel gwin seg:
A thraserch i'th iaith rwysog,
Yn minio gwawd, fy mwyn Gog!
Dywed i'th gan heb dewi,
A mwyn wyd, p'le mae 'mun i?

DAFYDD AB GWILYM.

Y GOG YN ABER-CUAWG.

Cog lafar a gàn gan ddydd,
Cyfreu eichiawg, yn nolydd Cuawg,—
Gwell corawg na chybydd.

Yn y fan odduwch llon dar,
Ydd endewais i lais adar;
Cog fan cof gan bawb a gar.

LLYWARCH HEN.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.